# Y TINCER

PRIS 75c

Rhif 334

Rhagfyr 2010

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


# CYFLE COTHI

Mae Rhodri Evans, Bow Street, yn un a ddewiswyd ar gyfer y gyfres radio 'Cyfle Cothi' ar Radio Cymru lle bydd y gantores, yr actores a'r cyflwynydd, Shân Cothi, yn rhoi cyfle i wrandawyr ddilyn hynt y perfformwyr. "Mae'r rhaglen wedi rhoi cyfle arbennig i dalent addawol o Gymru i ddysgu o brofiadau unawdwyr sydd wedi cyrraedd yr uchelfannau yn y byd perfformio heddiw," meddai Shân Cothi. "Mae yna gymaint o unigolion talentog ym mhob cwr o Gymru, a nod y rhaglen yw rhoi llwyfan i bob un o'r chwech godi eu proffil. Mae yma chwe unigolyn sydd wedi ymroi i loywi eu sgiliau ac sy'n ysu i ddysgu a datblygu yn sêr y dyfodol yng Nghymru."

Yr her gafodd Rhodri oedd canu mewn cyngerdd gyda'r unawdwyr Gwyn Hughes Jones a Rebecca Evans yn Eglwys Dewi Sant, Caerdydd. Bydd rhaglen Rhodri ar y radio amser cinio noswyl Nadolig - dydd Gwener, Rhagfyr 24 am 1.15pm.

Meddai Rhodri, "Roedd cael fy newis i gymryd rhan mewn dosbarth meistr yn brofiad bythgofiadwy, roedd cael canu gyda'm harwr yn rhywbeth roeddwn yn gwerthfawrogi'n fawr gan ei fod yn gallu uniaethu â mi gan ei fod wedi mynd o ganu bariton gwych i fod yn denor hyd yn oed yn well, a gan mai ond ers tua blwyddyn rwyf wedi canu'r ystod tenor, mae cael rhywun sydd â phrofiad yma yn un a fydd yn aros yn y cof am amser hir. Credaf fod Cyfle Cothi wedi rhoi hwb i mi fynd ati i ganu yn broffesiynol, gan nad wyf wedi mynychu coleg canu, rwyf yn aros i'r llais setlo yn yr ystod Tenor." Yn y llun gwelir Rhodri gyda Shân Cothi a Gwyn Hughes Jones.



## Pencampwyr

Llongyfarchiadau i gangen Rhydypennau o Ferched y Wawr a enillodd yn y rhanbarth ac a ddaeth yn ail drwy Gymru - dim ond colli o drwch blewyn gyda'r datglwm yn setlo'r safle blaenaf. Yn y llun mae Janet Roberts, Menna Davies, Bethan Hartnup a Brenda Jones, Cangen Rhydypennau - buddugwyr Cwis Cenedlaethol Merched y Wawr, Rhanbarth Ceredigion ac yn ail (o drwch blewyn yn unig) drwy Gymru gyfan.



## Coed Nadolig Broc Môr y Borth



Ry'n ni'n ffodus iawn bod cymaint o siopau difyr yn y Borth sy'n cynnig amrywiaeth o crefftau a phaentiadau difyr o bob math.Ac eleni, mae na werthu mawr wedi bod ar goed Nadolig Broc Môr y Borth- creadigaeth Frederica, un o berchnogion siop 'Adrift'. Coed sydd wedi eu gwneud o froc môr a gasglwyd o'n traeth ni yma! Maent yn addurno nifer o dai y pentre'r Nadolig hwn ac rwy'n gwbod i gwmni 'Bodlon' sy'n gwerthu crefftau Cymreig a Chymraeg ddangos diddordeb ynddynt hefyd ,sydd wrth gwrs yn newyddion calonogol iawn i Fred. Ar hyn o bryd, maent i'w cael mewn dau faint- tua dwy droedfedd a phedair troedfedd.

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 334 | Rhagfyr 2010



Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG



**SWYDDOGION**

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD** - Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth SY24 5NX
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION** - Rhodri Morgan, Maes Mieri Llandre, ☎ 828 729 rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER** - Anwen Pierce

**TREFNYDD GWERTHIANT A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER** - Bryn Roberts
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

**GOHEBYDDION LLEOL**

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch,
☎ 623660
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD **IONAWR 6** a **IONAWR 7** I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI IONAWR 20

**RHAGFYR 16** Nos Iau Plygain Traddodiadol dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch am 7.30

**RHAGFYR 17** Nos Wener Dathlu'r Nadolig gyda Alan Wynne Jones ac Alun Jones. Cymdeithas Lenyddol y Garn yn festri'r Garn am 7.30

**RHAGFYR 17** Nos Wener Gwasanaeth carolau blynyddol Eglwys Elerch o dan ofal Y Parchg Ganon Stuart Bell am 6-00.

**RHAGFYR 17** Nos Wener Gyrfa Chwist Flynyddol yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor am 7.00

**RHAGFYR 18** NosSadwrn Bryan Jones ar yr organ yn lansio ei grynoddisg newydd: Naws y Nadolig yng Nghlwb Cymdeithasol Penrhyn-coch am 9.00

**RHAGFYR 19** Nos Sul Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 6.00

**RHAGFYR 19** Nos Sul Cyngerdd Nadolig gan Ysgol Theatr Maldwyn ym Morlan, Aberystwyth am 7.30 Cyfle i fwynhau noson o adloniant gan y criw talentog hwn o bobl ifanc. Mynediad trwy raglen: oedolion £7, plant £5

**RHAGFYR 20** Nos Lun Gyrfa Chwist Nadolig yn Neuadd y Penrhyn am 8.00. Gwobrau da! Dofednod ffres o fferm leol! MC: Mr Tom Breeze, Comins-coch, Machynlleth. Dewch yn llu i gefnogi un o draddodiadau Cefn Gwlad adeg y Nadolig.

**RHAGFYR 22** Bore Mercher Gwasanaeth carolau Ysgol Gyfun Penweddig yn Seion, Stryd y Popty am 10.30

**2011**

**IONAWR 19** Nos Fercher Geraint Evans, Tal-y-bont yn trafod ei lyfrau. Cymdeithas y Penrhyn yn Festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

# EISTEDDFODAU'R URDD CEREDIGION

**MAWRTH 16** Pnawn Mercher Eisteddfod offerynnol yr Urdd Cylch Aberystwyth yn Ysgol Gynradd Llwyn-yr-eos, Penparcau am 1.30

**MAWRTH 17** Dydd Iau Rhagbrofion Eisteddfod Gynradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn Ysgolion Penweddig, Plas-crug a'r Ysgol Gymraeg o 9.15 ymlaen

**MAWRTH 17** Prynhawn Iau Eisteddfod uwchradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Penweddig am 1.30

**MAWRTH 18** Dydd Gwener Eisteddfod Ddawns yr Urdd cylch Aberystwyth yn y Neuadd Fawr am 12.30yp

**MAWRTH 18** Dydd Gwener Eisteddfod Gynradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth am 4.00

**MAWRTH 26** Dydd Sadwrn Eisteddfod cynradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 9.00

**MAWRTH 30** Dydd Mercher Eisteddfod Ddawns ac Aelwydydd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 1y.p

**EBRILL 1** Dydd Gwener - Eisteddfod Uwchradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid o 9.00 yb

**Y Tincer ar dâp - Y Tincer ar dâp** - Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

**DIOLCH**
Hoffai Pwyllgor y Tincer ddiolch i holl ddosbarthwyr y papur am gydweithio gyda'r swyddogion i gasglu yr arian yn brydlon eleni. Dyma'r dosbarthwyr - os gadawyd enw rhywun allan - ymddiheuriadau. Gadewch i ni wybod os gwelwch yn dda. Bydd y rhestr o fudd i unrhyw ddarllenydd arall sydd yn dymuno cael y papur i'r drws.

**Y BORTH**
Yvette Ellis-Clark, Rock Villa (casglu a dosbarthu i'r Borth)
Beti Lewis, Heol Aberwennol
Derek Davies, Elidir
Elizabeth Evans, - Perllan Hen, Glanwern

**CAPEL BANGOR/ PEN-LLWYN**
Aeronwy Lewis, Rheidol Banc.
Heulwen Lewis, Deiniol.
Linda Morris, 8 Pen-llwyn
Gwynfor Jones, Llwyniorwerth

**GOGINAN**
Bethan Bebb, Penpistyll,Cwmbrwyno (casglu a dosbarthu i Melindwr)
Gareth Jones, Coedlan
Wendy Davies, Glwysle.

**CWMRHEIDOL**
Beti Daniel, Glynrheidol

**LLANDRE**
Mary Thomas, Dolgelynnen
Elena Davies, Bronallt
Nia Peris, Tyddyn Llwyn
Beti Williams, Greenbank
Erddyn James, Lluarth, Taigwynion

**DOLAU**
Delyth Morgan, Ger-y-nant

**PENRHYN-COCH**
Dai Rees Morgan, Maes Seilo (casglu a dosbarthu i Benrhyn-coch)
Glenys Thomas, Y Felin a'r cylch
Gillian Dobson, Cae Mawr
Gwenan Davies, Ger-y-llan
Alwen Fanning, Ger-y-llan
Bethan Davies. Glan Ceulan a'r cylch
Mair Jenkins, Glan Seilo a'r cylch
Marion Thomson. Maesyrefail a'r cylch

**BOW STREET**
Mary Thomas, TĐ Clyd - ardal Pen-y-garn
Elizabeth L Jones, Maes Ceiro
Menna Davies, Maes Afallen
Gareth Lewis, Siop Spar hyd yr Hen Orsaf
Gweneth Jones, Bryn Meillion a Maes y Garn
Brenda Jones, Y Lôn Groes
Gwenda Edwards, Tregerddan
Howell Ebenezer, Bryncastell
Margaret Evans, Bryncastell
Enid Jones. Ffordd Clarach

**DÔL-Y-BONT**
Llinos Evans. Dolwerdd

Dosbarthu i siopau
Hedydd Cunnigham Siop Spar Tal-y-bont
Dafydd Sheppard - Siopau'r Dre, Waunfawr a Swyddfa Post Bow St

**Mae'r Tincer ar werth yn**
Garej Rhydypennau
Garej TĐ Mawr, Penrhyn-coch
Gorsaf Betrol Exchange, Capel Bangor
Inc, Aberystwyth
Siop a Swyddfa Bost Penrhyn-coch
Siop Spar, Tal-y-bont
Siop Nisa, Y Borth
Siop Spar, Waunfawr
Siop Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Siop y Pethe, Aberystwyth
Swyddfa Bost, Bow Street

**Cyfarchion y Nadolig**

**Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i gyfeillion a darllenwyr y Tincer. Byddaf yn cyfrannu arian eleni i'r elusen Tŷ Gobaith yn lle gyrru cardiau Nadolig**

**Ceris Gruffudd (Golygydd)**

Cyhoeddir *y Tincer* yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angen-rhedirwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.
Telerau hysbysebu
Tudalen lawn (35 x 22 cm)£100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma enillwyr Cyfeillion Y Tincer mis Tachwedd.**
£25 (Rhif 254) Iwan Davies, Cnwc Y Deintur, Maes-y-garn, Bow Street.
£15 (Rhif 200) Howell Ebenezer, 19 Bryncastell, Bow Street.
£10 (Rhif 124) Aled V Roberts, Cefn Y Gwynt, Bethel, Caernarfon, Gwynedd.

Fe dynwyd y rhifau buddugol gan swyddogion Y Tincer yn dilyn Pwyllgor yn festri Capel Noddfa Nos Fercher y 24ain o Dachwedd 2010.

**TREFNIADAU CASGLU SBWRIEL DROS Y NADOLIG**
Bydd sbwriel yn cael ei gasglu ar y dyddiau arferol yng Ngheredigion eleni gan fod y Nadolig a'r Calan yn syrthio ar ddydd Sadwrn.

# 30 Mlynedd 'Nôl



Tîm hoci mamau Ysgol Penrhyn-coch,gyda'r ddau reolwr Mr R.T. Evans a Mr I.E. Jones
(o Dincer Rhagfyr 1980)

## Llythyr

Annwyl Olygydd,
Mae cyfnod cyfansoddi Cân i Gymru 2011 wedi cyrraedd, ac eto eleni rydym yn chwilio am gyfansoddwyr mwyaf addawol Cymru.

Llynedd cawsom ymateb rhagorol, gyda nifer o dalentau newydd a phrofiadol yn ymgeisio. Mae y cyfnod ymgeisio ar agor hyd Ionawr y 7fed 2011.

Rydym yn croesawu caneuon gwreiddiol o bob math, gan obeithio bydd diddordeb gan rai o'ch darllenwyr i roi cynnig arni.

Mae gwobrau ariannol sylweddol ar gael i'r cyfansoddwyr llwyddiannus;

1af = £7,500
2ail = £2,000
3ydd = £1,000

Am fwy o wybodaeth, rheolau llawn y gystadleuaeth a ffurflen gais cysylltwch gyda'r tîm cynhyrchu'n uniongyrchol;
E-bost - canigymru2011@avantimedia.tv ,
Ffôn: 01443688530
neu drwy wefan S4C — www.s4c.co.uk/canigymru

Gyda diolch,
Tîm cynhyrchu Cân i Gymru

Blodau i bob achlysur
**Blodau'r Bedol**
Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth .Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur
**Donald Morgan**
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

**CIGYDD BOW STREET**
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

**TACSI EDDIE**
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch

**ANIFEILIAID TEW**
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

# Taith Dewi Sant: 2-10 Hydref 2010



Mawr fu'r edrych ymlaen at yr wythnos gyntaf ym mis Hydref. Dyma oedd penllanw misoedd o baratoi manwl ar gyfer cenhadaeth Taith Dewi Sant ym mhentrefi Bow Street, Capel Bangor, Llandre, Penrhyn-coch,Taliesin a Thal-y-bont. Cynrychiolwyr o'r gwahanol eglwysi yn y cylch oedd aelodau'r tîm cynllunio lleol a buont wrthi'n ddyfal yn paratoi ar gyfer pob agwedd yn ymwneud â'r genhadaeth gan gynnwys llunio gweithgareddau'r wythnos, cyhoeddusrwydd, trefniadau llety a lluniaeth, yn ogystal â chludiant.

Fe'n hysbyswyd mai 10 o genhadon a fyddai'n dod i'r ardal ond oherwydd rhesymau personol a theuluol dim ond wyth a ddaeth yn y diwedd. Roeddent wedi teithio cyn belled ag Ynysoedd Erch (Stuart), Caergrawnt (Richard), Peterborough (Dave), Burnley (Peter), Bournemouth (Neil), Poole (Ian), Llangennech (Derek) ac Eric (Y Bala). Er i ni obeithio y byddai mwy o'n cydwladwyr wedi cymryd rhan yn y genhadaeth, yn y diwedd roeddem yn ffodus bod dau o'r cenhadon yn siarad Cymraeg.

Cyrhaeddodd y mwyafrif o'r tîm ar y nos Wener (1af o Hydref) er mwyn teithio i lawr i Aberteifi ar gyfer yr Oedfa Gomisiynu am 11.00 o'r gloch ar y bore Sadwrn canlynol. Yn ystod hanner cynta'r wythnos bu'r cenhadon yn cysgu ar lawr festri Capel y Garn yn Bow Street. Roedd gofalwyr y capel, Ian a Gwen Cole, wrth law i sicrhau bod eu harhosiad mor gartrefol â phosib. Bu nifer o aelodau'r eglwys hefyd yn garedig iawn yn darparu gwelyau cynfas/plygu ar gyfer y tîm er mwyn eu galluogi i gael noson dda o gwsg, neu fel arall byddai'r cenhadon wedi gorfod cysgu ar lawr y festri.

Wedi brecwast bob bore byddai'r tîm yn mwynhau egwyl gyda'i gilydd yn gweddïo, myfyrio ac yn cynnal astudiaethau Beiblaidd cyn bwrw ati i ddiwrnod llawn o weithgarwch a oedd yn cynnwys ymweld ag ysgolion cynradd yr ardal, y Brownis a'r Geidiau, cartrefi'r henoed, cartrefi lloches, boreau coffi, yn ogystal â chenhadu o ddrws i ddrws. Gyda'r nos caent gyfle i ymweld â'r tafarndai yn y gwahanol bentrefi. Er nad oedd y rhan fwyaf o aelodau'r tîm wedi cyfarfod yn flaenorol, eto i gyd o fewn ychydig amser roeddent mewn cytgord llwyr â'i gilydd. Ar y cyfan rhoddwyd croeso cynnes iddynt gan drigolion yr ardal ac yn arbennig felly gan y rhai a oedd wedi paratoi prydau o fwyd iddynt gyda'r nos.

Dydd Mercher oedd y diwrnod newid drosodd, gyda'r tîm yn symud i Benrhyn-coch. Penderfynodd y cenhadon eu bod am gerdded y daith ar hyd y lonydd culion a chawsant eu bendithio â thywydd hydrefol braf. Cyn pen dim roeddent wedi gwneud eu hunain yn gysurus yn eu cartref newydd yn festri capel Horeb a chyda chymorth Ian Cole a threiler Merfyn James cludwyd y gwelyau a'r matresi draw o Gapel y Garn.

Yn ystod yr wythnos cynhaliwyd nifer o oedfaon arbennig yn ogystal â'r gwasanaethau Sul arferol. Bu oedfa ddiolchgarwch Cymdeithas y Chwiorydd yng Nghapel y Garn ar brynhawn dydd Mercher gydag un o'r cenhadon, y Parchedig Eric Greene, yn pregethu. Ar y nos Fercher cynhaliwyd dwy oedfa ddiolchgarwch, y naill yn Eglwys Capel Bangor lle bu Roger Murphy, Efengylydd gyda Through Faith Missions yn pregethu, a'r llall yn Neuadd Penrhyn-coch o dan arweiniad y Parchedig Tecwyn Ifan, Ysgogwr Cymanfa gyda'r Bedyddwyr yn Ninbych, Fflint a Meirion. Yn ogystal, cynhaliwyd Gwasanaeth Iachâu yng nghapel Horeb ar y nos Wener. Ar y bore Sul olaf bu'r cenhadon yn mynychu nifer o oedfaon yng nghapeli ac eglwysi'r ardal cyn dychwelyd i Neuadd yr Eglwys ym Mhenrhyn-coch ar gyfer cinio, wedi'i baratoi'n garedig gan rai o aelodau'r capel a'r eglwys. Yn y rhan fwyaf o'r gwasanaethau bu'r cenhadon yn rhoi eu tystiolaeth, rhywbeth a werthfawrogwyd yn fawr gan bawb a gafodd y fraint o wrando arnynt. Darparwyd offer cyfieithu ar y pryd ar gyfer rhai oedfaon er mwyn galluogi'r cenhadon di-Gymraeg i ddeall yr hyn a oedd yn digwydd. Mawr yw ein diolch i Mrs Llinos Dafis am gyfieithu.

Pa elw felly a ddaeth i eglwysi'r cylch yn sgil cynnal Taith Dewi Sant? Heb amheuaeth, bu'r genhadaeth yn fodd i ddarparu ffocws arbennig i alluogi eglwysi'r ardal i gyd-weithio ac o ganlyniad mae'r gweithlu lleol wedi penderfynu cyfarfod yn rheolaidd o hyn ymlaen i drefnu digwyddiadau cydenwadol ac i annog ei gilydd yn ein gweinidogaeth Gristnogol.

Hefyd, cafodd ein ffydd ei gryfhau a'i herio yn ystod yr wythnos wrth i rai ohonom fod yng nghwmni'r cenhadon bron bob awr o'r dydd. Roeddent mor daer a brwdfrydig yn eu hawydd i rannu'r Efengyl ag eraill. Efallai ein bod wedi teimlo ychydig yn betrusgar cyn iddynt gyrraedd ond gwelsom yn fuan nad pobl uwchysbrydol oeddent ond pobl gyffredin, yn union fel chi a fi!

Mae'r Arolwg a gynhaliwyd gan y cenhadon wrth fynd o ddrws i ddrws wedi dangos yn glir fod y rhan fwyaf o bobl yn dal i gredu mewn Duw neu o leia, yn chwilio am adnabyddiaeth ohono. Holwyd tua 200 o bobl yn ystod yr wythnos a dyma oedd y canlyniadau:

Ydych chi'n credu mewn rhyw fath o Dduw?

Ydwyf (60%) / Nac ydwyf (22%) /Ddim yn siŵr (18%)

Os ydych yn credu yn Nuw, neu heb fod yn siŵr, sut un yw Duw yn eich tyb chi?

Grym (15%) / Pell (8%) / Personol (53%) / Rhywbeth arall (24%)

Beth ydych chi'n credu sy'n digwydd pan ddaw'n bywyd i ben?

Rydym yn marw a dyna ni (20%)

Down yn ôl i'r byd ar ffurf arall neu fel person arall (8%)

Mae pawb yn mynd i'r nefoedd (17%)

Mae rhai yn mynd i'r nefoedd ond fe â eraill i uffern (16%)

Ddim yn siŵr(28%)

Rhywbeth arall (11%)

Beth yw eich cred am Iesu?

Ni fu'n bod o gwbl (3%)

Roedd yn ddyn cyffredin a dim byd mwy (17%)

Roedd yn broffwyd neu'n negesydd oddi wrth Dduw (24%)

Ef yw unig Fab Duw (40%)

Arall (16%)

Pe medrech ofyn un cwestiwn i Dduw (neu i rywun sy'n credu yn Nuw), beth fyddai hwnnw? Dyma rai posibiliadau:

Pam na wnei di ddangos dy hun fel y daw pawb i gredu ynot? (9%)

Pam ydw i ar y ddaear? (6%)

Pam mae cymaint o ddioddefaint yn y byd? (44%)

Pam wnaethost ti greu y byd yn y lle cyntaf? (11%)

Rhywbeth arall (30%)

Os hoffech adnabod Duw yn bersonol, a fyddai gennych ddiddordeb?

Na fyddai (11%) / Byddai (58%) / Ddim yn siŵr (28%) / Rhyw ymateb arall (3%)

Yn sicr bu Taith Dewi Sant yn galondid mawr i bawb a fu'n ymwneud â hi. Rydym i gyd yn gobeithio y bydd yr hadau newydd a blannwyd yn ein cymunedau yn dwyn ffrwyth a thystiolaeth i'n Harglwydd Iesu maes o law.

Gyda mawr ddiolch i bawb a roddodd groeso a chymorth yn ystod Taith Dewi Sant.

**Judith a Wyn Morris**

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd
pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn
CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y gorau ym Mhrydain

# LLANDRE

### Pasio prawf gyrru

Da iawn ti Gwion James, Tre-medd, ar basio dy brawf gyrru.

### Dymuniadau gorau

Anfonwn ein dymuniadau gorau i Gladys Jones, Bronberllan, sydd yn dal yn ysbyty Bron-glais. Cofion cynnes yr ardal i chi.

### Eglwys Llanfihangel Genau'r Glyn

Mae nifer fach o galendrau 2011 yr Eglwys ar gael. Os hoffech un cysylltwch â Betty Williams rhif ffôn : 828335.

### Babi newydd

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Lees, Glannant, ar enedigaeth merch fach arall mis diwethaf.

### Dathlu'r Nadolig

Er gwaetha'r rhew a'r eira roedd Bethlehem Llandre yn orlawn nos Wener Rhagfyr 3ydd a phawb yno yn dathlu mewn Noson Nadoligaidd arbennig yng nghwmni Sion Corn. Gyda'r ysgoldy wedi ei goleuo yn arbennig i'r achlysur a band o bobol ifanc yn canu carolau, roedd mynd mawr ar gwin cynnes di-alcohol, y mins peis a'r stondinau yn gwerthu llyfrau, anrhegion Nadolig, cacennau a gemau a thombola roedd awyrgylch Gwyl y Geni hefyd yn llenwi'r lle. Agorwyd y noson yn ei ddull dihafal gan Arglwydd Elystan Morgan gyda'r elw yn mynd i goffrau'r Tincer. Trefnwyd y noson gan Banc Bro y fenter gymunedol newydd a sefydlwyd yn sgil yr apel lwyddiannus yn yr ardal i godi arian ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010. Y nod yw creu ymwybyddiaeth o fuddsoddi yn y gymuned- buddsoddi amser, adnoddau, syniadau ac arian er mwyn cefnogi a hyrwyddo yr Iaith a'r Diwyllant yn y fro. Eisoes trefnwyd noson ym mis Tachwedd ac roedd yna gynulleidfa fawr ym Methlehem i wylio'r ffilm Hedd Wyn. Trefnir gweithgareddau eto yn y Gwanwyn a'r Haf.

### Gwasanaethau'r Nadolig

**Eglwys Sant Mihangel Llandre**
Gwasanaeth Carolau gyda Band Arian Aberystwyth, Nos Fawrth, Rhagfyr 21ain am 7.00 o'r gloch.
Cynhelir gwasanaeth o Gymun Bendigaid am 9.45 o'r gloch ar Fore Dydd Nadolig.

**Eglwys yr Holl Saint Llangorwen**
Gwasanaeth o Naw Llith a Charol am 11.00 o'r gloch Fore Sul, Rhagfyr 19eg.
Gwasanaeth Cymun Bendigaid am 11.30 pm ar Noswyl Nadolig a Gwasanaeth Boreol gyda Charolau am 11.00 o'r gloch ar Fore Dydd Nadolig.

**Eglwys Dewi Sant Tal-y-bont**
Gwasanaeth o Gymun Bendigaid gyda Charolau am 8.30 am ar Fore Dydd Nadolig.
Dydd Sul 26ain o Ragfyr cynhelir gwasanaeth arbennig o Garolau o Darlleniadau i ddathlu Gwyl San Steffan gyda Chymun Bendigiad. Croeso i aelodau pob Eglwys i ymuno.


pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
*****
Byrbrydau Poeth neu Oer
*****
Cinio
*****
Te Prynhawn
*****
Crefftau ac Anrhegion
*****
Ar agor saith niwrnod yr wythnos
Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau


# Hugh Rowland Owen

Wrth baratoi'r deyrnged i Dewi ac Anna Thomas yn y rhifyn diwethaf bûm yn ail ddarllen ei lyfrau taith, *Pedair Pedol Arian* (Llyfrau'r Dryw, 1970), a *Hynt y Sandalau* (Llandybie: C. Davies, [1974]). Yn yr olaf mae'n cyfeirio ddwywaith at Hugh Rowland Owen, fferm Rhydmeirionydd (un n bob amser!), Warden y Ficer yn Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn am hanner canrif, organydd a chôrfeistr am drigain mlynedd, a darllenydd lleyg. "Yr urddasol, dal Hugh Rowland Owen, cefnder i Thomas Makeig James, y Ffeirad Bach" yn Llanfyrnach lle maged Dewi, rhwng 1926 a 1932. Merch John a Mary Lewis Rhoswen, Blaen-porth, oedd Anna mam H.R.Owen, a'i dad Edward (efaill i Hugh) yn fab i Owen ac Annie Owen, fferm Tanllan ger Eglwys Llangynfelyn. Sut y daeth merch o Flaen-porth yn wraig i fab Tanllan?

Cyfeiriad Anna yn y cofnod o'i phriodas gydag Edward yn Llangynfelyn Mai 20, 1875, oedd y Ficerdy ac o droi at gyfrifiad 1881 gwelir mai'r Parchedig David Lewis 36 oed o Flaen-porth, brawd Anna ( yn ôl popeth a wn hyd yn hyn) oedd yn byw yno. Erbyn 1891 roedd wedi ymadael a Griffith Roderick o Dregaron oedd ei olynydd Credaf mai drwy deulu'i fam yr oedd H.R.Owen yn gefnder i'r Parchedig Thomas Makeig James. Mae ail gyfeiriad Dewi Thomas at H.R.Owen yn dweud fod ei dad yn gefnder i Humphrey Jones, Gwarcwm bach, Tre'r-ddôl — Humphrey Jones y Diwygiwr ym 1858-59, yng nghwmni Dafydd Morgan, Ysbyty Ystwyth.

Dywed Dewi Thomas hefyd fod Hugh Rhydmeirionydd yn perthyn i Dic Jones a gwn erbyn hyn fod Anna mam Hugh yn un o chwiorydd Alban Lewis, fferm Treprior, Tremain ger Blaen-porth, hen dad-cu Dic a'i chwiorydd Rhiannon, Margaret a Mary. Alban oedd enw tad Dic fel ei dad-cu, a chefnder iddo oedd Alban Dewi Lewis, Prifathro Ysgol Ardwyn gynt. Roedd Abba, fel y gelwid tad Dic yn hoffi dod i Rydmeirionydd i ymweld â'i dylwyth ar ei feic modur. Doedd ganddo fawr o ffordd oddi yno i Ben-y-graig, Tre'r-ddôl, oherwydd yr ieuengaf o 12 plentyn Dafydd a Mary Isaac, Frances ddaeth yn wraig iddo wedi iddi fynd yn athrawes i Flaen-porth. I Ben-y-graig y daeth mam Dic i eni'i mab a'i merched a byddaf yn atgoffa 'nghyfeillion o odre'r sir o hynny'n aml.

Cafodd Dewi Thomas 'enaid hoff cytûn' yn Hugh Rhydmeirionnydd ac y mae Randall Evans Enoch, awdur y gyfrol werthfawr ar yr Eglwys - Llanfihangel Genau'r Glyn (2002) yn canu'i glodydd ac yn cydnabod y cymorth a roddodd i'w fam weddw ag yntau. Rhyfeddai at ei feistrolaeth o'r organ o gofio fod pedwerydd bys ei law dde wedi plygu ac yn fyrrach na'r lleill. Mae'n cyfeirio hefyd at y plac pres yn yr eglwys i gofio am ei hir gyfraniad ef ac M.E.Evans yr organyddes gynorthwyol.

Pan adeiladwyd cangen o'r eglwys yn agos i gartref Hugh ym 1838 fe'i galwyd yn Ysgoldy Rhydmeirionydd, a bu eglwyswyr a chapelwyr yr ardal yn cyrchu iddi'n gyson yn enwedig i'r Cwrdd Diolchgarwch. Efallai fod a wnelo'r ffaith fod pawb yn cael eu gwahodd i'r ffermdy gan Hugh a'i chwiorydd Maggie ac Annie i Swper y Cynhaeaf yn gyfrifol fod yr addoldy'n orlawn bob blwyddyn! Diolch am ddyddiau difyr y gymdogaeth dda pan gyfoethogwyd pawb gan wledd yr oedfa ddiolch a bwrdd llawn Rhydmerionydd. Wedi rhoi heibio ffermio yn y 1950au symudodd y teulu i dŷ Maesterfyn ar dir y fferm. Gwelir y ddau enw ar garreg fedd Hugh Rowland Owen yn ymyl beddau'i hynafiaid ym mynwent Eglwys Llangynfelyn.

**W.J.Edwards**



Hawlfraint Nigel Brown ac wedi ei drwyddedu i'w ailddefnyddio dan drwydded Creative Commons. Gweler http://creativecommons.org

# Y BORTH

### Gwasanaethau Nadolig Eglwys Sant Matthew y Borth

Sul. Rhag. 19eg - 11.15 y.b. yn yr Eglwys — Drama'r Geni gan blant yr Ysgol Sul - croeso cynnes i bawb.
Mercher 22- 6.00 y.h. yn y Neuadd - Carolau & Mins peis.
Gwen. Rhag 24ain - 11.30 y.h.. yn yr Eglwys — Hanner nos Noswyl Nadolig Ewcarist
Sad. Rhag. 25ain- 10.30 y.b. yn yr Eglwys - Ewcarist Dydd Nadolig
Sul. Rhag 26ain - 10.30 y.b. yn yr Eglwys — Gŵyl San Steffan — Ewcarist Sul y Nadolig
Does dim gwasanaeth hanner nos ar Ragfyr 31ain
Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau ar Ionawr 2il 2011 am 11.15 y.b.
Croeso i bawb a Nadolig Llawen.

### Y Nadolig

Rydym yn edrych ymlaen at y Nadolig i ddathlu pen blwydd Iesu unwaith eto,ac fe fydd plant ysgol Sul Sant Matthew yn perfformio Drama'r Geni ar ddydd Sul y 19eg o Ragfyr am 11.15 y bore. Croeso i bawb.

Cynhelir gwasanaeth carolau a llithau ar nos Fercher 22ain o Ragfyr am chwech o'r gloch. Croeso i bawb i ymuno â ni yn Neuadd y Gymuned.

### Ymddiheuriad

Ymddiheuriadau i Dirk Lloyd am gynnwys ffaith anghywir amdano yn y rhifyn diwethaf. Ganwyd Dirk yn y Borth a fe yw'r gŵr hynaf a anwyd yn y Borth a sydd dal yn byw yma.

### Taith Dewi Sant

Daeth tîm o chwech i'r plwyf yn ystod Hydref a chawsom wasanaethau Diolchgarwch y Cynhaeaf gyda'r tîm yn cymryd rhan ac yn pregethu. Hefyd cawsom gyfarfodydd yn ystod yr wythnos ac aeth tîm allan i ymweld â phobl yn y pentrefi cyfagos, ac ar y nos Sadwrn cawsom gyngerdd yn y Neuadd Fawr yn Aberystwyth. Bu'n wythnos lwyddiannus a rydym yn ddiolchgar iddynt am eu gwaith yn ein plith ac i bawb a fu'n helpu mewn unrhyw ffordd.
Y Parchedig Cecilia Charles.

### Da iawn!

Cynhaliodd Amgueddfa Cerdigion gystadleuaeth tynnu lluniau 'The big Draw' a'r enillydd llwyddiannus oedd Erin Hassan o Ysgol Craig yr Wylfa yn y Borth. Thema'r gystadleuaeth oedd 'Cerddoriaeth' Felly llongyfarchiadau mawr iddi- dyma hi isod yn gwisgo top streipiog.



### Yr Orsaf

Mae'r paratoadau ar gyfer amgueddfa'r orsaf yn prysuro, dyma lun o'r gwirfoddolwyr yn rhoi graen ar hen gesys! Diolch i Stuart Evans ar ran Amgueddfa Cerdigion am eu parodrwydd i gyfrannu.



### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Margaret Owen, Fronyrawel, Glanwern, ar enedigaeth ŵyr bach. Ganwyd mab bach - Gethin Tomos - i Martin a Wendy Owen yn Sain Ffagan, Caerdydd - brawd bach i Mia Haf.



### Artistiaid y Borth - Catrin Webster

**Enw a chyfeiriad?** 'Tua'r Nen', y Borth (tu ôl i'r 'Gragen')
**Pam byw yn y Borth?** Rwy'n mwynhau byw wrth ymyl pethe; wrth ymyl môr, mynydd a'r figyn. Fy hoff olygfa yw'r un gyda'r nos wrth ddod lawr rhiw Clarach a gweld y duwch ym mhob man,ar wahân i stribed o olau'r pentre-gwres golau melyn mewn pydew tywyll du.
**Sut byddech yn disgrifio'ch gwaith?** Lluniau tirwedd (landscape) sy'n ceisio cyfleu y ffordd ry'n ni'n gweld ein hamgylchedd heddiw o'i gymharu â'r ffordd roedd artistiaid yn ei weld yn y 18fed a'r 19eg ganrif.
**Hyfforddiant?** Coleg Celf y Slade Llundain a Doethuriaeth Prifysgol Aberystwyth.
**Dylanwadau?** Fy rhieni; y ffaith fod Dad yn Gog a Mam o'r De, a nawr rwy'n byw yn y canol- cyfle i nabod Cymru gyfan. Hefyd tiwtor o'r enw Paul Richards o Gricieth. Ond heb os, Cymru yw'r dylanwad mwyaf.
**Pwy y'ch chi'n edmygu fel artist?** Mae sawl fferfyn ac yn eu plith —Gwen John, Hockney, a Peter Doig. Mae'r tri yn cynrychioli didwylledd.
**Pwy ydych chi'n edmygu fel person?** Fy nhad.
**O edrych yn ôl , pa un darn o'ch gwaith sydd wedi eich plesio fwyaf?** Llun abstract o Ynys-las sy'n ceisio cyfleu y man a'r lle hudolus hwnw. Mae'n lun en plien (llun sy wedi ei gychwyn a'i orffen ar leoliad).

## Dysgwr y mis

**Beth yw eich enw?** Nick Jones

**Faint yw eich oed?** Yn fy mhedwardegau.

**Ers faint ydych chi wedi bod yn dysgu Cymraeg?** Dechreuais i ddysgu pan symudais i i'r ardal o Gaerfaddon, dros ugain mlynedd yn ôl erbyn hyn.

**Ble oeddech chi'n dysgu Cymraeg?** Es i i wersi yn Aberystwyth gyda Felicity Roberts a hefyd es i unwaith i Nant Gwrtheyrn.

**O le ydych chi'n dod yn wreiddiol?** O Corby, tref ddiwydiannol newydd, oedd yn cynhyrchu dur, yn swydd Northamptonshire.

**Pam benderfynoch chi ddysgu Cymraeg?** Mae sawl rheswm. Roedd teulu fy nhad wedi symud yn wreiddiol o Aberdâr yn y 40au i Lundain ac wedyn i Corby, ac ers yn fachgen roeddwn yn teimlo cysylltiad cryf â Chymru ac roeddwn am fyw yno rhywddydd ac hefyd dysgu'r iaith.
**Pryd, neu gyda phwy ydych chi'n siarad Cymraeg?** Gyda ffrindiau sy'n amyneddgar ac yn fy annog yn achlysurol-ond yn anffodus, ddim yn aml. Dwi'n edmygu pobl sy'n rhugl iawn ac yn hyderus yn defnyddio'r Gymraeg, dwi ddim yn teimlo mod i wedi cyrraedd y fan honno, eto! Er, wrth ysgrifennu caneuon ar gyfer Côr y Gors, dwi wedi dechrau cynnwys tipyn o Gymraeg, ac hoffwn i neud mwy o hyny yn yn dyfodol. (Nick yw arweinydd Côr y Gors)



Nadolig Llawen i holl ddarllenwyr
Y TINCER

# Y TINCER YN TALU TEYRNGED i GLYNNE ac ELIZABETH EVANS

Rhan o natur byw mewn pentre bach yw cysylltu hon-a-hon â hwn-a-hwn ac, yn hanes Elizabeth, ac yng ngolwg eu cymdogion yn Y Borth, y trysor o gyswllt ers llawer blwyddyn bellach fu ei chymar a'i phriod annwyl, Glynne.

Gyda'u caniatâd, talodd *Y Tincer* ymweliad â'r ddeuddyn i'w cyfarch y Nadolig hwn yn eu Papur Bro :

**Y Tincer**: Mae pawb yn y pentre'n falch o glywed eich bod yn teimlo'n well erbyn hyn, ac mae'n dymor y diolch — fyddech chi tybed am roi diolch arbennig wedi'ch adferiad iechyd?
**GLYNNE**: Rhaid diolch i'r doctoriaid a'r staff yn Y Borth, a'r nyrsys a'r doctoriaid ym Mron-glais. Gyda diolch arbennig, efallai, i'r Gwasanaeth Ambiwlans a'r Paramedics ffantastig.
**Y Tincer**: Elizabeth — mae wedi bod yn flwyddyn gyffrous ar lawer ystyr yn eich hanes- (genedigaeth eich yr, Daniel John, ar y 10fed o Awst eleni ymhlith y digwyddiadau) -sut gawsoch chi'r amser i ddal ati'n dosbarthu'r Tincer? Ers faint o amser ydych chi wedi bod yn dosbarthu'r Papur Bro a beth sy'n gwneud y gwaith hwn yn werth chweil?

ELIZABETH: Rwy'n dosbarthu'r Tincer ers ugain mlynedd erbyn hyn. Ond gwell fyddai talu teyrnged i'r bobol sy'n trefnu'r dosbarthu, gan godi'r Tincer yn Llandre a chasglu'r arian, ac yn y blaen. Bu Nansi Hayes wrthi o'r dechre'n deg a, hyd yn lled ddiweddar, roedd yn rhaid plygu a sortio'r tudalennau hefyd. Rwy'n falch o weld darllenwyr newydd yn derbyn Y Tincer 'nawr, o blith rhengoedd dysgwyr y Gymraeg yn y Borth.
**Y Tincer**: Elizabeth —Mae eich enw'n gysylltiedig ag 'Oes Aur' o ohebu o'r Borth i'n Papur Bro, pan oeddech chi'n dipyn o dîm gyda Nansi Hayes (Dunstall gynt) Un o'r pethau mwya' trawiadol yn eich cylch chi'ch dwy oedd eich cof neilltuol: cofio enwau, achau, dyddiadau, digwyddiadau, ac yn y blaen. Beth yw'r atgofion mwya' neilltuol sy' gennych am weithio gyda Nansi, a beth yw'ch meddyliau am ddyfodol y Papur Bro yn Y Borth ers i Nansi symud o'r ardal?
**ELIZABETH**: Dechreuais ysgrifennu i'r Tincer tua 1995-96 gyda Nansi Hayes, ac Eurgain Rowlands, Hafod Heli. Wedi hynny, gweithiodd Nansi a fi o dan yr un iau am flynyddoedd prysur ond hapus. Cymerais at y rhan fwya' o'r cyfrifoldeb yn ystod y blynyddoedd diweddar, ond mae fy nyled i Nansi yn enfawr.
O! ...dyna golled pan ymadawodd Nansi a Des â'r pentre'...roedden nhw'n ddwfn ym mhopeth a oedd yn ymwneud â'r iaith a'r diwylliant yn yr hen fro Gymraeg.
Rhaid cofio hefyd am gyfraniad Thelma Lloyd, a'r diweddar John Lloyd, Glan-wern, a oedd mor weithgar gyda'r Capel a'r Ysgol Feithrin yn yr hen ddyddiau.
**Y Tincer**: Rydych chi'n edrych yn ôl dros yrfa faith yn gerddorol a does dim modd i Bapur Bro wneud cyfiawnder â rhychwant yr



holl flynyddoedd (efallai y dylech sgrifennu llyfr !!) — ond a oes atgofion arbennig??
**GLYNNE**: Mae'n wir i ddweud 'mod i wedi mwynhau gyrfa hir fel darlithydd ac arholwr. Am flynyddoedd fe wnes i fwynhau'r gwaith o fod yn brif arholwr Cerddoriaeth y Safon Uwch yng Nghymru, ac yn Gadeirydd Bwrdd Arholwyr Cerddoriaeth Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) hyd at ddwy flynedd yn ôl. Pleser yw edrych 'nôl ar flynyddoedd o arholi cerddorion ifanc ledled Cymru, yn Lloegr, ac yn arbennig arholi yn Hong Kong a Singapore, a'r gwaith o feirniadu mewn Eisteddfodau bach a mawr yn Sir Gâr a Cheredigion, ac Eisteddfodau'r Urdd, a'r Eisteddfod Genedlaethol.
**Y Tincer**: Elizabeth, mae eich gyrfa academaidd chithau wedi bod yn un nodedig, yn enwedig eich ysfa i ymwneud yn academaidd â'r iaith Gymraeg, ag â'r ieithoedd Celtaidd yn gyffredinol. Beth yw'r pethau sy'n aros fwya' yn y cof, beth oedd yn cynnal eich brwdfrydedd, a beth sydd wedi dal y cyfan ynghyd?
**ELIZABETH**: Mae'n wir i ddweud i fi wneud gradd yn Y Gymraeg, yn fy henaint bron, gyda diolch i bawb cysylltiedig â'r Radd Allanol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Cymerais ddeng mlynedd i orffen y radd, ond fe fwynheais bob eiliad. Wel, nid pob eiliad. Pwy sy'n hoffi arholiadau? Roedd e'n waith caled ac, yn y diwedd, roedd yn rhaid wrth gryn dipyn o hunanddisgyblaeth. Ond roedd yn werth chweil. Rwy'n cofio cyrsiau diddorol ar hanes a diwylliant Cymru, ac un wythnos arbennig o hwylus pan aeth pob copa walltog o'r dosbarth Llydaweg i Plijidi yn Llydaw ar gyfer Ysgol Lydaweg arbennig...
**Y Tincer**: Glynne — ar wahân i'ch gyrfa ddisglair fel cerddor proffesiynol, allwch chi enwi'r holl sefydliadau yn Y Borth sydd wedi elwa ar eich cael chi'n Drysorydd neu'n Awdit Anffurfiol?
**GLYNNE**: Roeddwn yn Drysorydd yn Eglwys Sant Mathew am ddeng mlynedd ar hugain hyd at y llynedd a hefyd, wrth gwrs, yn drysorydd y Gymdeithas Gymraeg a Chymorth Cristnogol yn y Borth (ac Elizabeth yn Swyddog y Wasg).
Ar hyn o bryd, rydw i'n Drysorydd RNLI y Borth, a bu Elizabeth a minnau'n ddigon ffodus i gael ein anrhydeddu â Bathodyn Efydd Sefydliad y Badau Achub.
Do, fe wnes i drefnu'r Gwasanaeth Gyl Ddewi am flynyddoedd yn yr Eglwys, ar ran y Gymdeithas Gymraeg. Bryd hynny, roedd Côr y Gymdeithas yn flaengar yng ngwasanaethau Plygain Gogledd Ceredigion ac yn ymarfer yma yn ein cartref yn 'Moorlands'. Fel mater o ffaith, y Ficer ar y pryd — y Parchg David Francis — a sefydlodd y côr a'i arwain i ddechrau.
Hyd at eleni, rydw i wedi bod yn archwilio cyfrifon Clwb yr Henoed a Sefydliad y Merched yn y pentref.

**Y Tincer**: Mae adroddiadau'r Tincer wedi cofnodi dros gyfnod helaeth bod eich gwaith chi'ch dau, yn hanfodol i waith Eglwys Iesu Grist yn y gymuned hon. Fel y gwyddoch yn dda eich dau fel trigolion y pentre', wrth droi 'nôl o safle ail-gylchu Wern Leri (sydd i'w gau wedi'r Nadolig, er mawr golled i'r gymuned a'r dalgylch — a'r blaned!!) gwelwn hen gapel y Morfa (wedi cau, ond wedi'i adnewyddu'n dai, felly o werth i'r gymuned), ac o fewn dwsin o dai i lawr y Stryd Fawr, Capel y Gerlan (sy'n dal i fod â Mans ar log, felly'n ennill i rai), dwsin o dai eto ac dyma hen ysgoldy'r Eglwys (wedi'i addasu'n Feddygfa a Fferyllfa, felly'n gwasanaethu'r gymuned), a'r tu cefn i'r hen Ysgoldy wele hen addoldy'r Pabyddion (yn prysur droi'n furddun), ac o fewn hanner dwsin o dai ar hyd y Stryd Fawr, hen gapel y Wesleaid (sydd o leia'n weithgar fel busnes i bysgotwyr. Pysgotwyr dynion??? Wel, mae'n debyg fod ambell barti bywiog wedi'i gynnal, ond stori arall yw honno!!). Dyna ddiwedd, i bob pwrpas, ar y dystiolaeth Anghydffurfiol a welwyd ers yn agos i ddwy ganrif yn y Borth. Rydych chi'ch dau'n adnabyddus fel Eglwyswyr ffyddlon, ac Eglwys Sant Mathew yw'r unig addoldy sy'n dal â'i ddrysau'n agored i'r Flwyddyn Newydd yn y Borth. Felly dyma gwestiwn i chi gnoi cil arno wrth gyrraedd trothwy'r Flwyddyn Newydd:

A ydych chi'n tybio y byddai'n bosib i Eglwys Sant Mathew gynnig Gwasanaeth Cymraeg i'r cnewyllyn o addolwyr Cristnogol Cymraeg eu hiaith yn y Borth er mwyn cynnal addoliad Cristnogol drwy gyfrwng y Gymraeg yma yn y pentre?
**ELIZABETH**: Rwy'n sicr y gellid trefnu gwasanaethau eciwmenaidd yn Y Borth. Mae'r Eglwyswyr wedi cefnogi gwasanaethau yn y Capel ers blynyddoedd, yn enwedig Gwasanaeth Dechrau'r Flwyddyn, gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd, a'r Gwasanaeth Diolchgarwch. Yn eu tro, mae Capelwyr wedi mynychu'r Eglwys ar gyfer Gwasanaeth Coffa'r Cadoediad, Gwasanaethau'r Nadolig, a Gwasanaeth Gwener y Groglith. Byddai'n dda gweld Capelwyr ac Eglwyswyr yn ymuno â'i gilydd yn rheolaidd yn y dyfodol.
**Y Tincer**: Gobeithio'n wir y gwireddir y dymuniad hwnnw. A'r cyfan sydd gan Y Tincer i'w ychwanegu yw: Diolch yn fawr, Glynne ac Elizabeth a Nadolig llawen!!

# ADRAN IAU CLWB GOLFF Y BORTH AC YNYS-LAS

Ar ddechrau Hydref cynhaliwyd noson gwobrwyo a bwffe llwyddiannus iawn yn y Clwb pan ddaeth dros 80 o aelodau'r Adran Iau, rhieni a noddwyr ynghyd i fynychu'r achlysur. Diolch yn fawr i holl noddwyr cystadlaethau'r Adran Iau am bob cefnogaeth a chymorth.

**Canlyniadau**

Cystadlaethau Capten yr Adran Iau

24 Awst — Pedwarawd Stableford: 1af Gethin Morgan a Tomos Wyn Roberts 27 pwynt; 2il Ioan Lewis a Claire Gittins 26 pwynt; 3ydd Jacob Billinglsey a Daniel Basnett 22 pwynt.

31 Awst — 4BBB: 1af Zach Galliford a Gethin Morgan 45 pwynt; 2il Ben Slater a Dafydd Thomas 41 pwynt; 3ydd Jordan Roberts a Aaron Bull 40 pwynt.

1af Medi — Cystadleuaeth 3 Man Rumble: 1af Gethin Morgan, Jordan a Tyler Roberts 126 pwynt; 2il Luke Williams, Tomos Wyn Roberts ac Elis Lewis 132 pwynt; 3ydd Zach Galliford, Gwenno Morris a Dafydd Thomas 133 pwynt.

Cwpanau Jiwbili - noddwyd gan Mr a Mrs Gareth Rowlands, Brynllys

3ydd Rhodri ap Dafydd (Goginan) 87:11:76; 2il, Luke Williams (Bow Street); Ennillydd Net Angharad Basnett (Bont-goch) 85:13:72; Enillydd Gross Zach Galliford (Y Borth) 73

Cystadlaethau Stableford Roll-ups — noddwyd gan Tim a Chris Long

Roll-up 1: 3ydd, Andrew Gittins; 2il, Sion Ewart; 1af, Zach Galliford

Roll-up 2: 3ydd, Jacob Billingsley; 2il, Zach Galliford; 1af, Gethin Morgan

Roll-up 3: 3ydd, Zach Galliford; 2il, Ben Slater; 1af Rhodri ap Dafydd

Roll-up 4: 3ydd, Luke Williams; 2il, Ioan Lewis; 1af Zach Galliford

Roll-up 5: 3ydd, Sion Ewart; 2il, Tomos Wyn Roberts; 1af, Angharad Basnett

Roll-up 6: 3ydd, Sion Ewart; 2il, Ben Slater; 1af, Gethin Morgan

Canlyniadau Terfynol: 5ed, Ben Slater; 4ydd, Jacob Billingsley; 3ydd, Luke Williams; 2il, Gethin Morgan; 1af Zach Galliford

Matchplay Adran Iau (yn chwarae ar y tees melyn, coch, gwyrdd) - Cydradd 3ydd; Sion a Steffan Clifton; 2il, Chris Davies; 1af, Sion Ewart

Pencampwriaeth Matchplay gyda handicapiau llawn — Cydradd 3ydd Andrew Gittins a Bryony James; 2il, Steffan Richards; Pencampwr 2010 Zach Galliford

Cystadleuaeth Cwpan Ryder — 4BBB Matchplay, Capten yr Adran Iau (Ewrop) v. Is-Gapten (Unol Daleithiau'r America). Yn y llun gweler tîm yr Is-Gapten: Ben Slater, Ioan Lewis, Gethin Morgan Daniel Basnett, Zach Galliford (Capten yr Adran Iau) a Sion Ewart yn y blaen.

Pencampwriaeth yr Adran Iau dros 36 twll — noddwyd gan Ted a Glyn Davies, Y Borth

Rownd 1: 3ydd Ioan Lewis (Bow Street) 80:11:69; 2il, Gethin Morgan (Pisgah) 89:20:69; 1af Jacob Billinglsey (Dôl-y-bont) 76:11:65; Gross gorau, Zach Galliford (Y Borth) 70.

Rownd 2: 3ydd Chris Davies (Clarach) 95:29:66; 2il, Elis Lewis (Bow Street) 83:17:66 (9 cefn); 1af, Tomos Wyn Roberts (Bow Street) 95:31:64; Gross gorau: Zach Galliford (Y Borth) 73

Canlyniadau Terfynol: Nett gorau: Tomos Wyn Roberts (Bow Street) 135; Gross gorau: Zach Galliford (Y Borth) 143



Yn y llun gweler Capten yr Adran Iau, Luke Williams a'i Is-Gapten Gethin Morgan (Pisgah). Dymunwn pob llwyddiant iddynt dros dymor 2010-2011.

Ar Ddydd Sadwrn 16ed Hydref cafwyd diwrnod llwyddiannus i swyddogion newydd y Clwb. Yn y llun o'r chwith i'r dde, Mr Idris Evans, Llywydd; Mr Ted Pugh, Capten; Luke Williams, Capten yr Adran Iau; Mrs Mair Jenkins, Capten y Boneddigesau.

Dros cyfnod hanner tymor aeth chwech o aelodau'r Adran Iau i gynrychioli Ceredigion mewn gêm yn erbyn Sir Drefaldwyn ar gwrs Y Royal St David's yn Harlech. Y chwech oedd Zach Galliford, Luke Williams, Gethin Morgan, Ioan Lewis a Daniel ac Angharad Basnett.

**Canlyniadau**

Iau 28ed Hydref — Cystadleuaeth 4BBB Stableford: 1af, Gethin Morgan (Pisgah) a Ioan Lewis (Bow Street) 44 pwynt; 2il, Daniel Basnett (Bont-goch) a Cameron Saunders (Llandre) 43 pwynt; 3ydd Zach Galliford (Y Borth) a Elis Lewis (Bow Street) 42 pwynt.

Cystadleuaeth Nadolig 1 — Medal: 1af, Ioan Lewis (Bow Street) 73:8:65; 2il, Zach Galliford (Y Borth) 70:0:70; 3ydd, Chris Davies (Clarach) 97:25:72; 4ydd, Ben Slater (Y Borth) 96:23:73 (9 cefn); 5ed, Andrew Gittins (Llanbadarn) 91:18:73

Cystadleuaeth Nadolig 2 — Stableford: 1af, Elis Lewis (Bow Street) 41 pwynt; 2il, Tomos Wyn Roberts (Bow Street) 38 pwynt (9 cefn); 3ydd Aaron Bull (Capel Bangor) 38 pwynt; 4ydd, Matthew Lucas (Bow Street) 37 pwynt (6 cefn); 5ed, Luke Williams (Bow Street) 37 pwynt.



Yn y llun gwelir rhai o aelodau'r Adran Iau sy'n derbyn hyfforddiant ar Cwrs Legacy y Cwpan Ryder o dan ofalaeth Sue Wilson.



Rhes gefn (ch i'r dde) Zach Galliford (Capten yr Adran Iau), Rhys Evans, Sion Manley, Sue Wilson (hyfforddwraig), Ffion Wyn Roberts. Rhes flaen (ch i'r dde) Owen Evans, Sophie Evans, Lisa Ewart ac Owain Feesey. Yn absennol o'r llun mae Cameron Saunders a Harvey Roberts.

# PEN-LLWYN A CAPEL BANGOR

### Ysbyty

Bu Mrs Yvonne Dryburgh, Maes Melindwr, yn cael triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymuniadau da iddi, a hyderwn ei bod yn gwella erbyn hyn.

Pob dymuniad da hefyd i Miss Gwen Davies, Panteg, sydd yn dal yn yr ysbyty heb fod yn teimlo yn rhy dda o hyd. Meddyliwn amdani yn ein gweddïau.

### Brysiwch Wella

Yr un yw ein dymuniad i Mr Martin Davies, Maencrannog, sydd yn disgwyl mynd i mewn i'r ysbyty am lawdriniaeth feddygol wrth inni fynd i'r wasg. Byddwn fel ardal yn meddwl amdanoch Mr Davies, pob bendith a brysiwch wella, 'rydych yn ein gweddiau.

### Gwasanaeth plant yr Ysgol Sul

Bwriadwn gynnal gwasanaeth y plant Fore Sul Rhagfyr 19eg am 10 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb. Anerchir gan y Parchg J. E. Wynne Davies, Aberystwyth.

### Enillwyr Clwb 100 Neuadd Pen-Llwyn

Medi, 2010
1. £20.00 — 40 — Pauline Pugh, Crud yr Awel, Capel Bangor
2. £10.00 — 72 — Llewela Thomas, Llwynteg, Capel Bangor
3. £5.00 -74 - Mary Vaughan, Pisgah
4. £5.00 — 33 — Mr & Mrs M James, Afallon, Capel Bangor

Hydref, 2010
1. £20.00 — 55 — Huw Davies, Froncastell, Capel Bangor
2. £10.00 — 39 — Rosemary Fletcher, Cefn Llan, Llanbadarn
3. £5.00 -93 — Glenda Evans, Cae'r Wylan, Llanbadarn
4. £5.00 — 43 — Wynne Jones, Tanygaer, Capel Bangor

Tachwedd, 2010
1. £20.00 — 65 — Iona Evans, Pencae, Capel Bangor
2. £10.00 — 75 — Rhian Morgan, Forge Cottage, Capel Bangor
3. £5.00 -51 — Margaret Phillips, Hibernia,Capel Bangor
4. £5.00 — 43 — Wynne Jones, Tan-y-gaer, Capel Bangor

### Diolch

Fel gohebydd Pen-llwyn, carem ddiolch drwy'r papur am y dymuniadau da a dderbyniais ar fy mhen blwydd arbennig. Diolch i'r bechgyn am y parti syrpreis, fe joiais mas draw ond wps! rwyn mynd yn hên!! Diolch eto i bawb am bopeth.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Laws, Dylan a Nia, Maes y Meillion, Neil wedi colli ei dad yn ddiweddar sef Mr Leonard Laws, Glennydd, Llanrhystud, gynt o Dregaron. Cofiwn am y teulu bach hwn, yn eu hiraeth.

### Bedydd

Cafodd Morgan Jac, mab bychan Mr Jonathan a Mrs Angharad Lewis, Bronllys, Pen-llwyn, ei fedyddio ychydig o wythnosau yn ôl, yng nghapel Seion, Capel Seion, gan y gweinidog y Parchg Wyn Morris. Bu Morgan bach yn fachgen da drwy'r gwasanaeth, ond fel y gwelwch o'r llun, nid oedd yn meddwl llawer o'r ffws o dynnu lluniau! Dymuniadau gorau i'r teulu bach.



RHAGHYSBYSIAD
8 Mawrth Nos Fawrth Ynyd
Yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor
Noson Grempog
7 - 8 pm
Adloniant i ddilyn

## O'R CYNULLIAD

Mae hi wedi bod yn fis prysur arall gyda nifer o ddigwyddiadau hyd a lled Ceredigion a thu hwnt. Ymysg newyddion mawr y mis oedd clywed bwriad y Llywodraeth yn Llundain i orfodi S4C i dderbyn toriadau enfawr ac yna eu gosod dan adain y BBC gan wir beryglu dyfodol ein sianel a darlledu Cymraeg o ganlyniad i'r fath penderfyniad. Cafodd y penderfyniad ei wneud heb unrhyw drafodaeth gyda chyfarwyddwyr S4C na'r Cynulliad, diffyg parch llwyr i'r rhai fu'n cofio'r frwydr dros sefydlu'r sianel. Ar fore Sadwrn y 6ed o Dachwedd, mynychais rali '*Na i doriadau, Ie i S4C newydd*' yng Nghaerdydd, daeth dros 2,000 ynghyd a da oedd gweld cymaint o drigolion Geredigion oedd wedi teithio lawr i fynychu'r rali.

Mae'r gyllideb wedi ennyn cryn drafodaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac mae'r toriadau i gyllideb Cymru wedi gorfodi Llywodraeth y Cynulliad i wneud penderfyniadau anodd iawn. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi derbyn mwy o doriad i'r gyllideb oddi wrth y Trysorlys na llywodraethau Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Serch hynny, rwyf yn falch o'r ffaith fod y gyllideb ar gyfer ysgolion, ysbytai a gofal cymdeithasol, sgiliau a chynllunniau eraill, megis llaeth am ddim mewn ysgolion a phas-bws i'r henoed i gyd wedi eu gwarchod.

Daeth i'r adeg hwnnw o'r flwyddyn i gofio am y rhyfeloedd a fu, ac ar fore Sul, y 13eg o Dachwedd, mynychais wasanaethau Sul y Cofio yn Aberystwyth a Phenparcau.

Cefais hefyd wahoddiad i agor swyddfa newydd NFU Cymru yn Aberystwyth. Braf oedd gweld nifer o wynebau cyfarwydd a dymuniadau gorau i'r staff sy'n gweithio o'r swyddfa newydd.



James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES

Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

# BOW STREET

### Suliau Ionawr

Y Garn
10 a 5
www.capelygarn.org

2 Elwyn Pryse
9 Huw Roderick 10
 Terry Edwards 5
16 Bugail
23 Rhydian Griffiths
30 Bugail 10
 William Owen 5

Noddfa
2 Uno yn Y Garn am 10.00
9 10.00 Y Parchg. Ddr. Terry Edwards
16 Uno yng Nghartref Tregerddan am 3.30
23 Oedfa am 2.00 Y Parchg Roger Thomas
30 Uno yng Nghartref Tregerddan am 3.30

### Mrs Enid Howells

Pan dorrodd y newyddion am farw Mrs Enid Howells, 38 Maes Ceiro, yn dawel ac urddasol yn blygeiniol fore dydd Mercher y 13eg o Hydref yn 84 mlwydd oed fe sylweddolodd ardal eang fod un a oedd yn gymeriad arbennig iawn wedi ein gadael yn sydyn iawn. Brodor o`r ardal oedd hi a dechrau`r daith yn ei hanes yn mynd a ni yn ol i fis Medi 1926 ac i aelwyd y Ruel Isaf, Bow Street, lle `roedd William ac Annie Evans wedi sefydlu cartref ar ol symud yno o Fwlchglas yn ardal Tal-y-bont. Ganwyd 11 o blant i William ac Annie Evans ond gan na oroesodd dau eu babandod 9 yn unig dyfodd i fyny ar aelwyd Ruel Isaf, sef 4 o fechgyn (Gwesyn, David, Gerallt a`r diweddar Ieuan) a 5 o ferched (Enid, Morfydd, Elizabeth, Margaret a`r ddiweddar Menna).
Wedi dyddiau ysgol, fel yn ystod dyddiau ysgol, gwaith adref ar y ffarm oedd yn disgwyl Enid ac fe ellir bod yn sicr iddi ymroi i`r gwaith hwnnw â`i holl galon. Dyna oedd ei ffordd hi o fyw, dyna oedd ei byd hi; a gwae unrhyw un nad oedd ag elfen gwaith ynddo! Yn y man fe fwriodd ei choelbren efo`r garfan honno o deulu`r Ruel a ymsefydlodd ym Mhantydwn, ac yn wir fel Enid Pantydwn y cyfeiriai rhai ati hyd y diwedd.
Mae`n sicr bod 1965 wedi bod yn flwyddyn fawr yn hanes y Ruel Isaf gan i ddwy o`r merched briodi y flwyddyn honno, Margaret ym mis Ebrill ac Enid ym mis Medi. Wedi priodi fe ymsefydlodd Enid a`r diweddar Thomas Bennett Howells yn y Gelli Isaf, Ponterwyd, ac yno y bu`r ddau yn amaethu hyd farw Tom ym mis Medi 1997.
Yn y Gelli, fel yn y Ruel a Phantydwn, gweithio`n galed a wnaeth Enid a mwynhau gwneud hynny. Yn fuan wedi marw Tom dod yn ôl adref i Bow Street wnaeth Enid ac ymsefydlu yn 38 Maes Ceiro, llecyn delfrydol yng nghysgod y Ruel ac o fewn tafliad carreg i Gapel y Garn ac i wasanaeth bws i Aberystwyth.
Wrth dalu teyrnged iddi yng Nghapel y Garn ar ddydd ei hangladd fe gyfeiriais ati fel cymeriad arbennig iawn gydag anwyldeb, caredigrwydd, haelioni a gonestrwydd yn elfennau amlwg iawn o`i chymeriad; elfennau a olygodd na wnaeth neb erioed funud o waith iddi heb gael ei dalu`n anrhydeddus am y gwaith hwnnw. Agweddau eraill ar ei chymeriad oedd cyfoeth ei hiaith (pwdryn/pwdren/pwdrod yn feirniadaeth ddi flewyn ar dafod gyson ar unrhyw un oedd ag elfen o ofn gwaith ynddo), ei ffraethineb yng nghwmni ffrindiau fel Tom Hughes, Pantyperan (fel "fe Panti" y byddai`n cyfeirio ato fel arfer) a`i hoffter o ddillad crand o Cardigan House. Cyfeiriais ati hefyd fel un a oedd wedi gweithio`n galed ar hyd ei hoes ac a oedd wedi dal ati i fynd i`r Ruel yn ddyddiol at Dai hyd at ddiwedd 2009. Dros gyfnod o naw mlynedd mi gariodd hi dunelli dros y caeau i`r Ruel ac mi `roedd ôl ei throed i`w weld yn amlwg ar wyneb y tir. Capel y Garn oedd ei chartref ysbrydol ac wedi dod yn ôl i Bow Street yno y cyrchai i bob oedfa. Yr oedd Mr Vernon Jones yn llygad ei le pan gyfeiriodd ati fel "gwraig dair oedfa" gan mai patrwm arferol ei Sul oedd Gapel y Garn bore a nos ac oedfa cartref Tregerddan yn y pnawn. Yn y cyswllt hwn mae`n werth nodi iddi yn ei gwaeledd a`i gwendid gwta dair wythnos cyn ei marw gerdded i Tŷ Clyd i dalu ei chyfraniad olaf i Drysorydd y Capel. Os bu hi`n ffyddlon i`r capel mi fuodd hi`n ffyddlon i`w chyfeillion hefyd, ac nid gormodiaeth yw dweud iddi dalu`n ôl ar ei ganfed i bawb oedd wedi bod yn dda ac yn garedig wrthi hi ac wedi ei pharchu hi. Mi `roedd hi`n medru adnabod person llawn cystal ag y medrai adnabod anifail!
Wrth gofio`n annwyl am gymdoges a ffrind arbennig iawn i ni fel teulu, ac wrth gydymdeimlo`n ddiffuant â`r teulu cyfan yn eu profedigaeth, y mae rhai o eiriau Idwal Lloyd o`i gerdd "Llwch i`r Llwch" yn mynnu dod i`r cof wrth i ni sylweddoli fel y bu i Enid gyfoethogi cymaint ar ein profiad ni o fyw a bod:

Cofier na roir y cyfan
Yn y blwch yn llwch y llan.
Bydd y cof yn boddi cur,
O hwn fe geisiwn gysur.
Try y llu adegau llon
Yn gyfoeth o atgofion;
Darn o hud o`r hyn a aeth
Ac sy`n aros yw hiraeth.

Richard Lewis





Gwragedd y stondin cynnyrch cartref



Iestyn a Marian Hughes a Lleucu Sion

### Ffair Nadolig Capel y Garn

Cynhaliwyd Ffair Nadolig Capel y Garn fore Sadwrn Tachwedd y 27ain, yn Neuadd Rhydypennau. Er gwaethaf y rhew a'r eira cafwyd ffair lewyrchus iawn. Ar ôl i'r gweinidog, y Parchg Wynne Rh. Morris, groesawu pawb, agorwyd y ffair gan Iestyn a Marian Hughes, a chyflwynodd Lleucu Siôn flodau iddyn nhw. Mrs Mary Thomas, Dolgelynnen, fu'n beirniadu gwaith arlunio plant yr Ysgol Sul. Lleucu Siôn enillodd y cyntaf yn y dosbarth i blant chwech a thano, a Fabien Roberts y cyntaf i blant dros chwech oed. Diolchwyd yn gynnes i Fanc Barclays am eu nawdd i'r achlysur.

### Capel Y Garn

Diolch o galon i bawb a lanwodd focs sgidie, neu a gyfrannodd arian at yr elusen Operation Christmas Child eleni eto. Mae ugain mlynedd ers sefydlu`r elusen yma ac mae`n mynd o nerth i nerth. Trefnwyd yr ymgyrch gan y Grŵp Help Llaw a derbyniwyd 42 o focsus llawn a £230 o nawdd. Diolch am eich haelioni.

### DVD

Gwnaethpwyd DVD gan Emyr Jones, Llanrhystud, o'r gwasanaeth yng Nghapel y Garn pan oedd Parti Merched y Gaiman yno mewn gwasanaeth fis Gorffennaf diwethaf. Mae modd archebu copiau - pris £5 yr un - pe hoffai rhywun brynu copi trwy gysylltu â Vernon Jones, Gaerwen (ffôn 828344).

### Pen blwydd hapus

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i David Evans, 2 Tregerddan ar ddathlu ei benblwydd yn 70 oed ar 1 Rhagfyr. Daw'r cyfarchion oddi wrth y teulu a'r ffrindiau.

### Yn gwella

Rydym yn falch o glywed fod Ernie Rowlands, 42 Tregerddan, yn gwella'n dda ar ôl cael llawdriniaeth i'w galon yn Ysbyty Treforys. Ein dymuniadau da iddo gan obeithio y daw adre at Shirley yn fuan.

### Merched y Wawr, Rhydypennau

Ein His-lywydd, Shân Hayward, a'n croesawodd nos Lun 8fed o Dachwedd gan fod Beryl Hughes ein Llywydd yn yr ysbyty. Anfonwyd ein cofion cynnes at Beryl.

Byddwn yn mynd o amgylch y pentre nos Lun 13eg o Ragfyr i ganu carolau. Bydd yr elw yn mynd at Elusen y Glust.

Croesawodd Shân Hayward y cynghorydd ariannol Clive Davies o gwmni Davies Heulyn Davies atom ynghyd â Wyn Hughes, Cyfreithiwr. Cawsom noson addysgiadol iawn ynglŷn â'n harian. Cawsom flas ar y Dreth Incwm, buddsoddiadau, ewyllysiau, a chost cartrefi'r henoed. Noson ddiddorol dros ben. Diolchwyd yn gynnes iawn iddynt gan Siân.

Enillwyd y raffl gan Ann Jones. Paratowyd y te gan Jean Davies a Menna Davies.

**Nadolig Llawen i holl ddarllenwyr**
**Y TINCER**



## CYNGOR CYMUNED TIRYMYNACH

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 25 Tachwedd yn Neuadd Rhydypennau o dan gadeiryddiaeth y Cyng Owain Morgan. Yn dilyn cofnodion y mis blaenorol adroddwyd bod meinciau i'w pwrcasu un fuan ac fe ddefnyddir coed o'r hen rai i atgyweirio rhai eraill sydd angen eu trwsio. Mae'r ffrwcs ger mynedfa Bryncastell wedi ei glirio gan adael ffiniau rhai o dai Garreg Wen yn edrych yn eitha bregus. Gosodwyd y bolards ar y geulan ar gornel Y Lôn Groes i atal cerbydau i barcio, ac mae un wedi ei dolcio yn barod! O'r diwedd torrwyd y berth a fu'n rhwystr i fodurwyr oedd yn gadael Siop Spar yn Bow Street, er hwylustod i bawb.

Derbyniwyd adroddiad o Gyfarfod Ymgynghorol gyda Cyngor Sir Ceredigion yn Neuadd Rhydypennau yn ddiweddar. Yma eto rhwbiwyd halen i'r briw yn dilyn toriadau ariannol i wasanaethau, a bydd gofyn i Gynghorau Cymuned i gymryd y cyfrifoldeb o redeg ac ariannu rhai gwasanaethau yn y dyfodol, hynny yn golygu y caiff y trethdalwyr dalu trethi cyngor ddwywaith. Gresynodd y Cyngor o glywed bod un gynghorwraig yn y cyfarfod wedi dweud "Os ydych eisiau gwasanaethau yna rhaid i chi dalu amdanynt". Swm a sylwedd y cyfarfod oedd y bydd angen i'n cynghorau cymuned i edrych ar ôl eu hunain.

Cafwyd adroddiad cynhwysfawr gan y Cynghorydd Sir, y Cyng Paul Hinge. Dywedodd bod y gwaith elfennol o uwchraddio rhan o ystad Maesafallen yn agosau i'r terfyn, ond fe gymer rhai misoedd eto cyn bydd unrhyw waith yn cychwyn. Dal ar ei ôl mae unrhyw ddatblygiad tai yn Nhirymynach oherwydd problemau gyda chyflenwi'r gwaith carthffosiaeth yn lleol. Bu'n cyfarfod â nifer o swyddogion ynglŷn â throfa beryglus Dolgau a gobeithir gweld unioni'r tro yn y dyfodol agos.

Nid oedd unrhyw gais cynllunio i law na gwybodaeth am geisiadau wedi eu caniatau. Materion ariannol: roedd hi'n adeg talu rhan o'r benthyciad sef £473, a gwneir hynny ar fyrder.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 27 Ionawr 2011, oni fydd galw sydyn ar ryw fater o bwys.

## ABER-FFRWD A CWMRHEIDOL

### Llwyddiant yn Llanelwedd

Llongyfarchiadau hefyd i Sian a Dafydd Morris, Neuadd Parc, ar eu llwyddiant yn yr adran geffylau yn y Fair Aeaf yn Llanelwedd. Enillodd Friars Sill My Shadow ei dosbarth ac aeth ymlaen i gipio gwobr is-pengampwr yn yr Adran merlod mynydd Cymraeg. Mi 'roedd mam yr eboles fach hefyd wedi cipio yr un wobr pan oedd hi yn eboles rai blynyddoedd yn ôl.

### Damwain

Da yw dweud fod Vivian Morgan, Is-y-coed, yn teimlo'n well ar ôl iddo gwympo ar y ffordd llithrig nepell o'i gartref. Mae cyflwr y ffyrdd yn yr ardal wedi bod yn beryglus iawn yn ystod y tywydd rhewllyd ac mae angen i'r Cyngor Sir adolygu eu polisi o beidio graeanu ein ffyrdd gwledig.

### Genedigaeth

Mae John a Elizabeth Lewis, Dolgamlyn, wedi cael anrheg Nadolig cynnar iawn. Ganwyd mab bach i Menna a Dylan Stephens, llongyfarchiadau mawr i'r teulu i gyd.


RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

FFENESTRI IMEJ
FFENESTRI PVCu, HEULFANNAU, DRYSAU a.y.y.b. Am y GWASANETH, PRIS a'r SAFON GORAU gan GWMNI LLEOL
Sefydledig dros 30 mlynedd
Edrychwch am y Tŷ Twt
01970 880330
Marilyn a Ifor Jones
Cofrestrwyd gyda FENSA

C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

ytincer@googlemail.com

# PENRHYN-COCH

## Suliau Ionawr

**Horeb**
2 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
9 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
16 2.30 Oedfa bregeth Gweinidog
23 10.30 Gweinidog
30 10.30 Gweinidog

**Salem**
9 2.00 Y Parchedig Richard H. Lewis Cymundeb

## Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 12 a 26 Ionawr. Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Cerddor ifanc

Llongyfarchiadau i Rhys James, 35 Dôl Helyg, ar fod yn llwyddiannus ym mhrawf rhagarweiniol ABRSM ar y piano (sef yr arholiad cyntaf cyn Gradd 1).

## Côr Eisteddfod

Ffurfir Côr lleol eto eleni i gystadlu yn Eisteddfod y Penrhyn nos Sadwrn Ebrill 9fed dan arweinyddiaeth Emyr Pugh Evans. Bydd yr ymarfer cyntaf nos Fercher 12 Ionawr rhwng 6.30-7.30 yn Neuadd y Penrhyn.

## Diolch

Hoffai Ellen Sheppard,1 Dôl Helyg, ddiolch i bawb am y cyfarchion a'r cardiau a dderbyniodd yn ddiweddar ar achlysur ei phen blwydd arbennig — hefyd i Elisabeth Wyn a Grŵp Crefft Llandre am ei chynorthwyo i ddathlu!

## Gwasanaethau Nadolig Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch

11 y.h. Cymun Noswyl Nadolig
10 y.b. Cymun bore dydd Nadolig
10.45 y.b. Boreol weddi Gŵyl Sant Steffan.

## Cymdeithas y Penrhyn

Mwynhawyd noson yng nghwmni Manon Steffan Ros yn ein cyfarfod fis Tachwedd.

Yn wreiddiol o Riwlas ond bellach yn byw ym Mhennal, mae Manon yn fam ac yn



awdur amser llawn. Thema'i sgwrs oedd dylanwad hel achau wrth lenydda. Soniodd fod ei rhieni'n ddarllenwyr mawr a'r ffaith iddynt ddarllen yn gyson iddi hi a'i chwaer a'i hysgogodd i ysgrifennu yn y lle cyntaf. Soniodd am ei diddordeb yn hanes ei chyndeidiau a bro Tywyn. Mae'n amlwg fod ei pherthynas arbennig â'i nain yn bwysig iawn iddi. Dywedodd fod hen luniau, hen adeiladau a chreiriau yn ei hysbrydoli i lenydda. Yn ôl Manon, pethe syml sy'n esgor ar stori dda ac mae hel atgofion a choeden deulu wedi cael effaith ar ei hysgrifennu.

Cawsom noson hyfryd, gynnes o fwynhau artist geiriau ar ei gorau.

Noddwyd y noson gan Academi.

## Pen blwydd Hapus

Cyfarchion pen blwydd i Mrs Gwyneira Marshall, Brogerddan ar y 12fed o Ragfyr, sy'n dathlu pen blwydd arbennig eleni.

## Gohirio

Gohiriwyd noson sosial yr Eglwys gyda gwyn poeth a mins peis oherwydd y tywydd garw.

## Cylch Meithrin Trefeurig

Yn ddiweddar gwisgodd plant Cylch Meithrin Trefeurig wisg ffansi i godi arian i Blant Mewn Angen. Yr ydym yn croesawu Lleucu, Olivia, Leah a Lowri atom. Yr ydym yn ymarfer at ein cyngerdd Nadolig a fydd yn cael ei gynnal yn y Neuadd dydd Iau, Rhagfyr 16.

## Merched y Wawr

Nos Iau, Tachwedd 11eg, yn anffodus methodd ein gwraig wadd ddod atom oherwydd bod ei gwaith beunyddiol wedi galw arni i weithio'r noson honno. Er hynny fe gafwyd noson ddiddorol dros ben. Ar ôl cael ein croesawu gan ein Llywydd a



Plant Cylch Meithrin Trefeurig wedi gwisgo lan ar gyfer diwrnod Plant Mewn Angen

gwneud y busnes arferol o fynd drwy'r ohebiaeth ddaeth i law a materion eraill aed ymlaen i wylio a chael hanes taith oedd Elisabeth Wyn wedi gwneud i Unol Daleithiau'r America a lle gwelodd y wlad yn ei holl ysblander. Yna cafwyd hanes a gweld ffilm o daith i Ganada oedd Glenys Morgan wedi ei gwneud yn ddiweddar. Hon eto â golygfeydd gwych. Roedd pawb wedi mwynhau'r noson yn fawr iawn. Cafwyd cwpanaid a thynnwyd y raffl arferol i ddiweddu'r noson. Diolchwyd i Elisabeth a Glenys gan Mair Evans.

## Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i Anita Pugh, 9 Tan-y-Berth, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Hefyd Vick Bolt, Ger-y-Llan, sydd yn yr ysbyty. Deallir hefyd fod Martha Edwards, Maes Seilo wedi bod yn yr ysbyty. Mae'r tywydd oer yma wedi gadael ei ôl ar lawer. Brysiwch wella bawb fe ddaw y gwanwyn.

## Calendr 2011

Mae yna galendr allan sydd yn go debyg i galendr y "Calendar Girls" wedi dod i Benrhyn-coch. Mae ar werth ar hyn o bryd. Teulu Thorogood, Glanceulan a'u ffrindiau a welir arno. Mae at elusennau gwir bwysig sy'n ymwneud ag Ysbyty Bron-glais. Gwerth ei brynu felly.

## Lansio CD newydd

Lansir crynoddisg newydd Bryan Jones Naws y Nadolig yng Nghlwb Cymdeithasol a phel-droed Penrhyn-coch nos Sadwrn 18 Rhagfyr. Mae'r crynoddisg yn cynnwys amrywiaeth o gerddoriaeth Nadoligaidd ar yr organ gan Brian ac ar werth yn lleol - yn Garej Ty Mawr .

## Ymddeoliad hapus

Dymuniadau gorau i Menna Lloyd Williams, Glan Seilo sydd wedi ymddeol o'i swydd fel pennaeth llyfrau plant yn y Cyngor Llyfrau. Yn rhodd gan gyfeillion a staff cafodd replica o Dlws Mary Vaughan Jones (Tlws a roddir yn flynyddol am gyfraniad i faes llyfrau plant.) Rhiannon Evans, Tregaron sydd wedi gwneud y tlws, ac mae'r cymeriadau sy'n y cylch yn portreadu cymeriadau yn llyfrau Mary Vaughan Jones.





## GOGINAN

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i James a Lucy Carver, Delfryn, ar enedigaeth eu merch fach, Tamzin ar Dachwedd 12. Mae Taid a Nain - sef Tim ac Angela Carver, Box Cottage, wedi dotio yn llwyr.

**Pen Blwydd Hapus**

Dymuniadau gorau i Aled Bebb, Penpistyll a ddathlodd ben blwydd arbennig ar y trydydd o Ragfyr. Mae yn medru ymddeol yn swyddogol nawr.

## MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

Suliau Madog
Ionawr 2011
2.00

2 -
9 Bugail
16 Bugail
23 -
30 William Owen



## Nadolig Llawen


**CLWB CŴL**
**Penrhyn-coch**

Ar Agor Llun - Gwener
3.30 - 5.30
£6 y sesiwn . £5 ail blentyn

Bwyd a Diod Iachus yn Gynwysedig
Gofal Plant Cofrestredig

**Clwb Gwyliau**
Mae'r clwb hefyd ar agor yn ystod gwyliau'r ysgol a diwrnodau HMS
08.30 y.b. – 5.30 y.p.

£18 y diwrnod plentyn cyntaf
£16 y diwrnod ail plentyn

Sesiwn hanner diwrnod
08.30 – 1.00 y.p. neu 1.00 y.p. – 5.30 y.p.

£9 plentyn cyntaf . £8 ail plentyn

I fwcio cysylltwch â
Nicola Meredith neu Katy Nash ar
07972 315392
clwbcwl@googlemail.com
Neu cipiwch mewn i'r clwb ar ôl Ysgol

Celf a Chreft, Gemau tu mewn ag allan, Wii a Playstation, Pwll Pelau a mwy!


# Mairwen Jones



Fydd yr wyneb yma ddim yn ddieithr i'r rhan fwyaf o'r darllenwyr. Mae Mairwen Jones, Penrhyn-coch, wedi bod yn ffyddlon i'r Tincer oddi ar y cychwyn cyntaf, yn gweithio yn y cefndir ac yn cyfrannu cerddi ac ysgrifau i'w golofnau. Mae hi'n dal i fod ar y pwyllgor, ac yn frwd ei chefnogaeth i unrhyw beth sy'n mynd i fod o les i'r papur. Mae hi'n cofio mynd gyda grŵp o'r Penrhyn i gyfarfod agored yn Neuadd Rhydypennau i drafod y syniad o gael papur bro, ac wedyn ymuno mewn taith gerdded i godi arian at y fenter, a phawb wedi eu gwisgo fel tinceriaid. Testun balchder iddi yw'r ffaith mai hi enillodd wobr gyntaf y menywod am ei gwisg, a'r diweddar Berwyn Lewis ddaeth yn gyntaf o blith y dynion.

Mairwen, a'i hefaill Hefin Stephens a fu farw y llynedd, oedd yr ieuengaf o bump o blant W.C.a Ceridwen Stephens. Ar ôl bwrw ei brentisiaeth yn fasiwn gyda chwmni adeiladu'r Dolau, sefydlodd ei thad ei gwmni adeiladu ei hunan dan yr enw W.C. Stephens & Sons.

Ymhlith ei hatgofion cynharaf mae'r ffaith bod ei thad a'i mam wastad yn brysur gyda phethau'r capel a'r pentref. Bu ei thad yn arwain côr y pentref, ac yn beirniadu canu mewn eisteddfodau lleol. Bu ei thad a'i mam yn gyd-ysgrifenyddion Eisteddfod y Capel (Horeb)yn y tridegau. Ymhlith ei thrysorau mae llythyr atyn nhw oddi wrth Cynan a oedd wedi ei wahodd i feirniadu yno. Pan oedd hi'n ifanc mae'n cofio cystadlu yn Eisteddfod y Ddau Dŷ, a gynhelid yn Festri capel Horeb, pryd y cai'r ardal ei rhannu yn ddwy ran, sef Gogerddan a Brogynin.

Aeth Mairwen ymlaen o Ysgol Gynradd Penrhyn-coch i Ysgol Ardwyn, ond bu raid iddi adael cyn cael cyfle i fynd i goleg am fod iechyd ei mam yn fregus. Bu'n gweithio gyda'r cyfreithwyr Roberts and Evans ac yna yn y swyddfa Trethu Moduron, cyn priodi â Ray Jones.

A hithau'n wraig ifanc ac yn fam i ddau o blant dechreuodd gario'r post o gwmpas yr ardal. Byddai'n casglu'r sachaid llythyron yn y post am hanner awr wedi wyth y bore ac yn gwneud taith o ryw dair milltir ar ddeg ar gefn beic. Ar y Sadwrn byddai weithiau'n mynd a'i dau blentyn bach, Carina ac Adrian, gyda hi ar flaen y beic.

Ray Jones oedd stiward cyntaf Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch, pan agorodd gyntaf , a Mairwen yn gynorthwy-ydd gweithgar iddo. Wedi hynny bu'n gweithio gyda J.D.Lloyd yn Aberystwyth, a bu hi a Ray yn cadw'r Black Lion yn Bow-Street o 1986-1991.

Mae hi wedi bod yn athrawes Ysgol Sul, yn Llywydd ac yn Ysgrifennydd y gangen leol o Ferched y Wawr, yn Llywydd Cymdeithas y Penrhyn, ac yn aelod o bwyllgor y Neuadd ac o bwyllgor y Sioe. Ar hyn o bryd hi yw gohebydd y Wasg cangen Merched y Wawr, ac ers wyth mlynedd hi yw ysgrifennydd Eisteddfod Flynyddol Penrhyn-coch. Mae hi'n falch dweud mai ei hwyrion, Aaron ac Ashley Stephens, sy'n rhoi tlws yr ifanc i'r eisteddfod bob blwyddyn.

Ei diddordebau yw trefnu blodau a barddoni. Mae ei barddoniaeth wedi ymddangos yn y Tincer droeon, ac mae llawer o'i chyfeillion a'i chydnabod wedi derbyn cerdd ganddi i ddiolch am gymwynas, i longyfarch ar lwyddiant, neu i ddymuno'n dda.

A hithau'n tynnu at droad y flwyddyn, mae'n gwenu wrth gofio fel y byddai plant ei chenhedlaeth hi am y cyntaf i gyrraedd Gogerddan fore'r Calan er mwyn cael y geiniog newydd a'r oren yn galennig, ac yna wrthi'n ddi-baid drwy'r bore i gael cyrraedd Cefn Llwyd cyn ganol dydd. Prentisiaeth dda ar gyfer rownd y post yn ddiweddarach!

**NADOLIG 2010**

Ar drothwy'r Nadolig i gyd fel hyn
Gawn ni gofio fod seren yn disgleirio uwchben
Yn atgoffa ni am wir ystyr y gair
Fod y baban Iesu wedi ei eni i Joseff a Mair.
Er i'r byd a'i bethau ein denu ni
Gadewch i ni blygu glin mewn gweddi.
A diolch ein bod i gyd yn ffodus
Pan welwn fywyd eraill mor druenus.
Felly pan fyddwn i gyd yn mwynhau
Y Nadolig hwn ymysg ein teulu
Cofiwch am y seren ddisglair uwchben
A'n harweiniodd ni at stabl ym Methlehem.

**Mairwen Jones**
**LlD**



**Cronfa Eleri**
**Blwyddyn 2010 – dros £16,000 i'w rannu**
Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n cydnaws ag amcanion y Gronfa

Ffurflen gais a manylion ar gael o: www.cronfaeleri.com
Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ
Tel: 01970 832551 e-bost: ymholiadau@cronfaeleri.com
**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Chwefror 13eg 2011**

Amcanion Cronfa Eleri
*'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'*

# ADOLYGIADAU

*Cerddi Dafydd ap Gwilym Gwasg Prifysgol Cymru,* **2010 760t £65.00**




Bron i hanner can mlynedd ar ôl i Thomas Parry gyhoeddi ei olygiad arloesol *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, braf yw gweld cyhoeddi'r golygiad newydd hwn o waith un o feirdd pwysicaf Cymru, hon eto'n gyfrol arloesol, ond am resymau ychydig yn wahanol. Yn ei ragair esbonia Dafydd Johnston mai 'fersiwn print o'r golygiad electronig a geir ar wefan Dafydd ap Gwilym.net' (www.dafyddapgwilym.net) sydd yn y gyfrol hon, a bod y gyfrol a'r wefan yn ffrwyth cydweithio rhyngadrannol a ariannwyd gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Ceir enw chwe golygydd wrth y gyfrol, pob un wedi bod yn gyfrifol am nifer penodol o gerddi (fel y nodir yn y rhestr cynnwys).

Ni fwriadwyd i'r gyfrol a'r wefan gyfateb o ran eu cynnwys: yr hyn a gawn yn y gyfrol yw pinacl y gwaith, y cerddi eu hunain (151 ohonynt) gydag aralleiriadau i Gymraeg modern, a nodiadau 'cryno' yng nghefn y gyfrol sy'n rhoi gwybodaeth angenrheidiol am y cefndir, am ystyr ambell linell neu air, neu esboniad am gyfeiriadaeth: hynny yw, unrhyw wybodaeth sy'n gallu dyfnhau ein dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad o'r cerddi. Fe'n cyfeirir ni hefyd yn y nodiadau at yr ymdriniaethau pwysicaf sydd wedi bod yn ddiweddar ar gerddi Dafydd ap Gwilym.

Byr iawn yw rhagymadrodd y gyfrol (5 tudalen), ond ceir yno grynodeb pwrpasol o'r hyn a wyddys am 'Y Bardd', esboniad am 'Trosglwyddiad y Cerddi' a sylwadau am 'Y Polisi Golygyddol'. Ar ddiwedd y gyfrol ceir rhestr o'r llinellau cyntaf a rhestr o'r teitlau. Yn bersonol byddwn i hefyd wedi hoffi gweld mynegai traddodiadol i'r enwau priod ar ddiwedd y gyfrol, ac o bosibl mynegai i'r nodiadau geiriol neu eiriau anghyffredin.

Er mwyn cael manylion pellach am agweddau ar waith neu yrfa Dafydd ap Gwilym, fe'n cyfeirir at gyfres o ysgrifau safonol a chynhwysfawr gan yr amrywiol olygyddion ar dudalen `Rhagymadrodd' gwefan www.dafyddapgwilym.net: erthygl yn crynhoi'n hwylus y cyfan a wyddom am Ddafydd gan Dylan Foster Evans (gyda chymorth Sara Elin Roberts), un am y cefndir cerddorol gan Sally Harper, ar y cyd-destun llenyddol gan Huw Meirion Edwards, ac ar grefft y bardd gan Cynfael Lake. Cyfeirir hefyd at yr ysgrifau ar egwyddorion golygu testun, y traddodiad llawysgrifol, a'r Apocryffa gan Dafydd Johnston. Ar y wefan hefyd cynhwysir golygiad o 20 cerddi ychwanegol o'r cyfnod sydd yn fwy ansicr eu hawduraeth (un ai y mae amheuaeth gref ynglŷn â'u priodoliad i Ddafydd ap Gwilym, neu ynteu eu bod yn ddienw yn y llawysgrifau a bod lle cryf i amau mai Dafydd a'u piau). Gellid dadlau bod y gyfrol bresennol yn gymaint tlotach o beidio â chynnwys y trafodaethau a'r cerddi hyn, ond a hithau'n gyfrol bron i 600 tudalen yn barod, y gobaith yw y cawn weld cyhoeddi'r ysgrifau mewn cyfrol ar wahân, yn lle gorfod eu darllen ar y sgrin neu wedi eu hargraffu ar ddalennau A4.

Os oes gan rywun eisoes gopi o gyfrol swmpus Thomas Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, ar ei silff lyfrau, mae'n ddigon teg iddo ofyn a oes angen iddo brynu copi o'r gyfrol newydd hon, sydd yn cynnwys mwy neu lai yr un cerddi (ac eithrio bod chwe cherdd wedi eu gwrthod a thair wedi eu hychwanegu). Yr ateb yn syml yw OES, ac nid yw hynny'n feirniadaeth o gwbl ar safon ysgolheictod Thomas Parry. Y rheswm pennaf yw safon y cerddi eu hunain yn y gyfrol newydd hon. Nid yn unig mae'r dull golygu testun wedi ei gywreinio er 1952, ond mae ein dealltwriaeth ni o destunau Cymraeg Canol hefyd wedi cynyddu yn ddirfawr (drwy olygiadau testunau craidd megis testunau'r Mabinogi, chwedlau eraill a thestunau barddoniaeth Oes y Tywysogion a chyfnod Beirdd yr Uchelwyr). Nac anghofiwn chwaith y fraint a fwynhawn ni o gael golygiad cyflawn o Geiriadur Prifysgol Cymru wrth ein penelin (hyd at y gair 'brethyn' yn unig oedd wedi ei gyhoeddi erbyn 1952). Mae'r ffaith fod aralleiriadau yn y gyfrol hefyd yn ychwanegu'n fawr at ei defnyddioldeb.

Ond rheswm arall am roi lle blaenllaw iddi ar unrhyw silff lyfrau yw ei harddwch: mae'n llyfr clawr caled hynod ddeniadol, ac mae cryn ofal wedi ei gymryd wrth ei gosod, gan sicrhau, er enghraifft, fod yr aralleiriad a'r testun yn syrthio ochr-yn-ochr, fel bod y darllenydd yn gallu cadw golwg ar y ddau. Mae'r rhwymiad ei hun yn hynod o safonol, ac rwyf wrth fy modd gyda'r rhuban a ddarperir fel hwb i gof y darllenydd!

**Ann Parry Owen**

Adolygiad oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

---

**Cofnod Gweledol o Fywyd y Wlad**

*Gwyn Jenkins Byw yn y wlad: Y Ffotograffydd yng Nghefn Gwlad 1850-2010/Life in the countryside: the Photographer in Rural Wales 1850-2010* Y Lolfa, 2010 192t. £14.95

Mae cyfrol ddiweddaraf gwasg Y Lolfa yn gofnod gweledol o fywyd yng nghefn gwlad Cymru rhwng 1850 a heddiw. Gwyn Jenkins sy'n gyfrifol am ddod â'r casgliad arbennig hwn o ffotograffau ynghyd mewn llyfr sy'n croniclo'r newidiadau a'r datblygiadau yn y byd amaeth a chefn gwlad yn gyffredinol dros y canrif a hanner diwethaf.


Yn gyfrol ddwyieithog, mae *Byw yn y Wlad / Life in the Countryside* yn cynnwys dros 160 o ffotograffau deniadol o bob cwr o Gymru. Yn lluniau o bobl wrth eu gwaith, yn teithio ac yn hamddena ac o'r pentrefi gwledig, ffermydd a thyddynnod bach, mae'n gofnod hanesyddol o'r newid ym mywyd a gwaith yng nghefn gwlad.

Daw'r lluniau trawiadol yn bennaf o gasgliadau'r Llyfrgell Genedlaethol, gan gynnwys lluniau gan ffotograffwyr adnabyddus fel John Thomas, Geoff Charles ac eraill. Mae Gwyn Jenkins hefyd wedi cynnwys nifer o luniau o'r unfed ganrif ar hugain drwy fynd ar alw ambell i gyfaill iddo fel Marian Delyth ac Arvid Parry-Jones.

Yn wreiddiol o Benparcau, Aberystwyth ond bellach yn byw yn Nhal-y-bont, mae Gwyn Jenkins wedi ymddeol o'i waith fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Casgliadau yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth lle bu'n gweithio am 35 o flynyddoedd. Roedd felly'n gyfarwydd iawn â'r cyfoeth o ffotograffau oedd ar gael yn y Llyfrgell ac fe gafodd gymorth gan ffermwr lleol i ddeall mwy am gynnwys a'r dulliau a welir mewn nifer o'r lluniau.

"Dwi ddim yn dod o gefndir amaethyddol, ond fe fues i'n ffodus o gael cymorth gan ffermwr lleol, Gwilym Jenkins, sy'n ddyn adnabyddus yn Nhal-y-bont ac yn y byd amaethyddol yng Nghymru gyfan ac sy'n cael ei adnabod fel Gwilym Tan'rallt. Mi fuodd e a fi'n mynd drwy'r lluniau un prynhawn yn yr haf ac mi fuodd o dipyn o gymorth i mi yn egluro am yr hyn oedd yn digwydd hefo peiriannau a'r ceffylau ac yn y blaen," meddai Gwyn.


Gyda'r datblygiadau mewn amaethu a thrafnidiaeth yng nghefn gwlad Cymru, mae'r gyfrol hon yn gofnod o fywyd Cymreig sy'n prysur ddiflannu. "Dwi'n gobeithio y bydd pobl yn mwynhau'r gyfrol. Dwi'n meddwl ei bod hi'r math o gyfrol y bydd pobl yn troi'r tudalennau yn hytrach na dechrau yn y dechrau ac y bydda nhw'n cael eu synnu ar adegau. Ma' yna hefyd luniau o ambell i berson eitha' enwog pan oeddan nhw'n ifanc wedi eu cynnwys," eglura Gwyn.




---

*Ned Thomas Bydoedd: cofiant cyfnod* Y Lolfa, 2010 192t. £9.95

O fydoedd hen a newydd, i'r cythryblus a'r cyffrous, rhyfedd o fyd yw bydoedd Ned Thomas. Ac mae rhyw ryfeddod yn y ffaith bod un o'r rhai a gyfrannodd mewn ffordd mor gyhoeddus i'r ymgyrch i ennill Sianel Gymraeg yn cyhoeddi llyfr sy'n sôn am y weithred ar adeg pan mae dyfodol




y sianel yn y fantol eto.

Yr wythnos y cyhoeddwyd *Bydoedd* yn Aberystwyth roedd rali fawr yng Nghaerdydd i brotestio yn erbyn y toriadau arfaethedig yn dilyn y cyhoeddiad mai'r BBC fydd yn ariannu S4C o 2013 ymlaen. Fel hyn y mae Ned Thomas yn dechrau croniclo'r hanes gwreiddiol yn ei lyfr, "Ni fydd sianel Gymraeg yn datrys holl broblemau'r iaith heb sôn am broblemau economi Cymru, ond mae teledu yn fater pwysig. Gwyddwn dipyn am y maes cymhleth hwn. Roedd consensws pobl Cymru ar y mater yn glir. Yn raddol sylweddolais y byddai cenedl a oedd yn bodloni ar y driniaeth a dderbyniodd ym mater y sianel yn fodlon derbyn popeth. I mi gweithred fach symbolaidd yn dangos ein bod yn gwrthod y fath driniaeth oedd gweithred Pencarreg."

Yn ei gyfrol *Bydoedd* fe ddilynwn Ned Thomas ar sawl taith — o ymweld â'r Pab pan yn blentyn, i osgoi merched dengar y KGB ym Mosco, cwrdd ag aelodau ETA, cael ei amau o fod yn ysbïwr yng Nghymru, a diffodd mast Pencarreg yng nghwmni Merêd a Pennar.

Nid hunangofiant mohono, ond mae Ned Thomas, sydd wedi ymgartrefu ym mhentref Llwynpiod, rhwng Llangeitho a Thregaron, yn sgrifennu yn onest a chraff am fywyd anghyffredin. Mae'n adnabyddus fel awdur, darlithydd a sylfaenydd Canolfan Mercator yn Aberystwyth ac arweinydd yr ymdrech i sefydlu papur dyddiol Cymraeg, Y Byd ac mae'r llyfr yn llawn o atgofion difyr.

Dechrau'r wythnos roedd Ned Thomas yn dychwelyd o daith arall - y tro hwn o ŵyl Lyfrau Istanbwl i gymryd rhan mewn trafodaeth gyhoeddus am lenyddiaeth a chyhoeddi mewn ieithoedd lleiafrifol. "Mae'r pwnc yn un dadleuol oherwydd sefyllfa'r Cwrdiaid," meddai Ned Thomas. "Maent ar drothwy cyfnod cyffrous yn hanes eu hiaith a'u diwylliant."

Ar Nos Iau 21ain Hydref daeth 35 o bobl ynghyd i Ysgol Trefeurig ar gyfer lansiad Ymgyrch Codi Arian Grŵp Datblygu Hen Ysgol Trefeurig.

Cafodd pawb gyfle i fwynhau pwnsh seidr a chacennau afal wrth drafod y cynlluniau i godi'r arian sydd ei angen i brynu Hen Ysgol Trefeurig a'i chadw i'w defnyddio gan y gymuned yn y dyfodol.

Y prif ddull o godi arian fydd yr ymgyrch Noddi Carreg lle bydd unigolion yn gallu noddi carreg am unrhyw swm, ac yna bydd enwau'r noddwyr yn cael eu harddangos yn yr ysgol ac ar y wefan.

Bydd y grŵp hefyd yn cyflwyno cais am swm sylweddol o arian o gronfa Pobl a Lleoedd y Loteri Fawr.

Mae'n bwysig iawn bod y gymuned yn mynd ati i godi arian i gefnogi'r cais yma i'r Loteri Fawr oherwydd bydd hynny'n cynyddu'r siawns o wneud cais llwyddiannus.

Plîs noddwch garreg trwy fynd ar y wefan http://www.ysgoltrefeurig.org.uk/

Os nad ydych yn gallu mynd ar y rhyngrwyd ffoniwch am ffurflen os gwelwch yn dda 01970 822021

Plîs ewch ati i annog eich teulu, ffrindiau, cydweithwyr ac unrhyw un arall allwch chi feddwl amdanynt i noddi carreg, oherwydd bydd yn rhaid inni ddenu noddwyr o'r tu allan i'n cymuned fach ni os ydyn ni am lwyddo i gadw'r ysgol.

Pedair mis sydd gennym ar ôl ar y mwyaf i godi'r arian i brynu'r ysgol.

Diolch i Faith, Beth, a Janice Cowley am y cacennau blasus ac i Fil Wills am y pwnsh tymhorol poblogaidd.



Y Cynghorydd Dai Suter yn noddi'r garreg gyntaf yn ymgyrch Grwp Datblygu Hen Ysgol Trefeurig i godi arian i brynu'r ysgol.







GWASANAETH TEIPIO
CYSYLLTWCH Â
MAIR ENGLAND
PANTYGLYN
LLANDRE
CEREDIGION
SY24 5BS
FFON: 01970 828693
E-BOST:
daiamair@pantyglyn.freeserve.co.uk

LLETY PARC
Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

GWELY A BRECWAST MAIR
9 Heol Llangrallo, Pen-y-Bont ar Ogwr CF31 3AR
Croeso cynnes Cymreig mewn lleoliad delfrydol i ganolfanau siopa gorau de Cymru, Canolfan y Mileniwn, Stadiwm y Mileniwm a Cae Pêl-droed Caerdydd.
www.mairsbedandbreakfast.co.uk
e-bost : mairbandb@hotmail.com
01656 655442
07768 286303
Cysylltwch â Huw a Sarah Tudur

Y TINCER

JONATHAN JAMES LEWIS
SAER COED ADEILADYDD
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH
01970 880652
07773442260

TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt.
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch
Gwrthtaith Fibrophos a rhai organig
Ymgymymerir â phob math o waith amaethyddol am brisiau cystadleuol
Loriau a pheirianau amaethyddol i'w llogi
01970 820149
07980 687475

# ADOLYGIADAU

*Richard E. Huws Caneris Melyn Trefeurig*
**Cyhoeddwyd gan yr awdur, 2010 70t. £6.00**
Llyfryn bach digon disylw yw hwn ar yr olwg gyntaf, er mor gain y dylunio a'r argraffu. Ond na thwylled neb gan hynny. Yn 70 tudalen y gyfrol, mae yma gyfoeth rhyfeddol o hanes cymdeithasol a phersonol sy'n gofnod byw o fywyd cefn gwlad gogledd Ceredigion yn y blynyddau wedi'r Ail Ryfel Byd.


Hanes tîm pêl-droed go hynod, Trefeurig and District United, sydd yma dros gyfnod ei chwarae yn Nghyngrair Aberystwyth a'r Cylch dros bum tymor rhwng 1948 a 1953. Fe gymerodd yr awdur ei bwnc yn gyfangwbl o ddifrif — drwy ymchwil manwl a chynnal cyfweliadau lu er mwyn gwneud ei stori yn brofiad byw i'w ddarllenwyr drigain mlynedd wedi'r digwyddiadau.

Gan ddechrau gyda hanes tîm ysgol gynradd Trefeurig o ddechrau'r 30au ymlaen (mae yma lun hyfryd o'r tîm a'r prifathro Daniel Jones ym 1934) mae'r awdur yn ein tywys drwy hanes y Caneris Melyn yn lliwgar- fywiog, gan amlinellu hynt y tîm drwy ei bum tymor yn y Gynghrair hyd at yr uchafbwynt pan gyrhaeddwyd ffeinal y *North Cardiganshire Village Cup* y 1953. Mae'r stori'n llawn o fanylion difyr megis y tro pan giciodd gôlgeidwad Trefeurig y bêl allan, a'i gweld hi wedyn yn cael ei chwythu dros ei ben ac i'r gôl, gan gryfed y gwynt. Cae nodedig o noethlwm oedd eiddo'r Caneris, ar dop Banc y Darren.

Portreadau cwbl gyfareddol, cryno ond manwl, o 70 o chwaraewyr y tîm yw gweddill y gyfrol. Mae'r awdur fel pe'n anwylo pob un wrth eu disgrifio. Lawn cyn bwysiced, fe gawn ddarlun yn eu hanesion amrywiol o wead cymdeithasol a theuluol Aberystwyth a'r cylch yn y cyfnod dan sylw. Ac i gloi, wele restr canlyniadau'r Caneris yn eu pum tymor, a thablau Adran 2 y Gynghrair yn dangos cynnydd y tîm.

Dyma berl bach o lyfr, a Rhagair atgofus Tegwyn Jones yn ychwanegiad hyfryd ato.

**Cynog Dafis**



Enillydd y copi o gyfrol Richard Huws yw Eirian Reynolds, Ger-y-llan. Llongyfarchiadau iddo. Yr ateb i'r cwestiwn 'Pa dîm pêl-droed o Gymru sy'n cael ei adnabod fel y Caneris yw Clwb Pêl-droed Caernarfon .

*Lyn Ebenezer a Charles Arch Ymlaen a'r Sioe Gomer* **168t. £12.99**



Mae'r flwyddyn 2010 yn un arbennig i'r Cardis. Bu prifwyl yr Urdd yn Llanerchaeron yn hynod lwyddiannus a'r un fu hanes y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd o dan lywyddiaeth Dai Jones, Llanilar, a'i briod, Olwen. Felly, derbyniol a gwerthfawr iawn yw'r gyfrol ddwyieithog hon o waith Lyn Ebenezer a Charles Arch. Mae'r ddau berson yma bellach wedi penderfynu dychwelyd at eu gwreiddiau i ymddeol ac mae'r Bont ar ei hennill o'u cael yn eu plith.

Addas iawn yw teitl erthygl y Llywydd ar ddechrau'r gyfrol sef `Y Fraint Fwyaf a Ddaeth i'm Rhan'. Ie, yn ddi-os, hon yw'r swydd sydd wedi dod â'r pleser mwyaf iddo. Fel erioed, mae'n cydnabod ei ddyled i ardal Llangwyryfon, y fro a blannodd ynddo'r gwerthoedd yn gynnar mewn bywyd. Ceir llun hyfryd ohono ef a'i briod, Olwen, gartref ar y fferm a phwy all fesur maint ei chyfraniad hi i lwyddiant Dai ar hyd y blynyddoedd?
Yn y flwyddyn 1983, Geraint Howells oedd y Llywydd ac Olwen, ei briod yntau, yn gefn cadarn iddo. Rhaid bod rhywbeth yn yr enw! Mae'r awduron wedi gwneud cyfraniad sylweddol wrth roi'r gyfrol yma at ei gilydd ac wedi rhychwantu blynyddoedd o hanes. Teg yw cofnodi fod y lluniau yn ychwanegu llawer at y cyfanwaith.

Yr hyn sy'n fy nharo i bob amser wrth feddwl am rai cystadlaethau yn y Sioe Amaethyddol yw'r ffaith fod llinach yn bwysig a thair neu bedair cenhedlaeth yn cipio'r gwobrwyon yn eu tro, e.e. teulu'r Jenkins' â'r da duon; Evans Troedyraur â'r moch; Ifor Lloyd, Lloyd y Facwn, Nebo Stud a Frongoy Stud ym myd y cobiau, a nifer o rai eraill. Mwynheais ddarllen teyrnged William Lloyd i John Roderick Rees, Penuwch, gan mai ef oedd un o'r athrawon oedd yn dysgu Cymraeg yn Ysgol Uwchradd Tregaron pan oeddwn yn ddisgybl yno. Er yr holl sylw cenedlaethol a gafodd fel prifardd, eto i gyd, y ceffylau oedd agosaf at ei galon. Seren y cobiau a fu'n eiddo iddo ef a'i dad oedd 'Brenin Gwalia' ac yn 1948, cafodd y teulu wahoddiad i'w arddangos yn Sioe Ryngwladol Ceffyl y Flwyddyn yn y 'White City' yn Llundain. Ysgrifennodd gerdd i gofnodi'r achlysur:

Bu datsain dy gamau ar gerrig Llundain
Yn Sioe ryngwladol y merlod mirain
A choeth y cynhaliaist ti urddas dy ach.

Yn ddi-os, mae Ceredigion wedi cyfrannu'n helaeth i'r byd amaethyddol a gwelwyd enghreifftiau di-rif o ffrwyth eu llafur yn Llanelwedd yn ystod wythnos fawr y Sioe. Erthygl gynhwysfawr arall yw un Teleri Bevan sy'n coffáu ei thad, Dr Richard Phillips, Llangwyryfon, a enillodd Fedal Aur Cymdeithas Frenhinol Cymru. Mae llun hyfryd ohono ef a'i gyfaill agos, Dafydd Jones o Drefenter, yn y gyfrol. Un o atgofion melysaf Dr Richard Phillips oedd un o sioeau cynnar Aberystwyth rhwng 1904 a 1909 pan oedd Poli, y poni froc, yn trotian yn y cylch mawr. Do, fe roddodd Dr Phillips a'i briod, Eiddwen, gyfraniad clodwiw i'r Sioe yn ogystal â Cheredigion, a braf meddwl fod yna Ysgoloriaeth yn cael ei rhoi yn flynyddol i berson ifanc er cof amdano.

Wel, dim ond codi cwr y llen rydw i wedi'i wneud yn fan hyn — mae'n gyfrol i'w thrysori ac yn gofnod gwerthfawr o sioe lwyddiannus y Cardis yn 2010.
Beti Griffiths

Adolygiad oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru

# MYFYRDOD Y NADOLIG

Wrth gerdded i mewn i un o fwytai Indiaidd Aberystwyth yn ddiweddar, fe'm hwynebwyd â golygfa annisgwyl, sef golygfa'r geni. Ochr yn ochr â choeden yn llawn addurniadau a goleuadau 'roedd yna breseb ynghŷd â holl gymeriadau stori Bethlehem. Yr hyn oedd yn gwneud yr olygfa yn annisgwyl oedd y lleoliad, lleoliad y byddai rhywun yn ei gysylltu â diwylliant gwahanol ac yn naturiol, crefydd wahanol. Gan fod yr archeb yn barod a'r ffaith bod person arall yn sefyll y tu ôl i mi, ni chafwyd amser i aros a holi. Efallai y daw cyfle eto i holi a hynny ar ôl syrffedu ar dwrci ac arogleuon y dwyrain yn demtasiwn. Pryd hynny byddaf yn gofyn y cwestiwn syml "Pam?", mewn oes sy'n rhoi cymaint o bwyslais ar wleidyddiaeth gywir ac yn rhy aml o lawer yn defnyddio crefyddau eraill a ffyrdd gwahanol o fyw fel cyfryngau i guddio peth o seciwlariaeth yr oes a hynny yn enw parch a goddefgarwch. Y mae'n ddifyr nodi pam benderfynodd un o ddinasoedd Lloegr hepgor y gair 'Christmas' a mabwysiadu'r gair 'gaeaf', 'Cyngor Mwslemaidd Prydain Fawr' oedd ymhlith y rhai cyntaf i feirniadu gan danlinellu diffyg parch cyngor y ddinas arbennig honno tuag at un o wyliau pwysicaf y grefydd Gristnogol. A dyna ni'n ôl yn y bwyty Indiaidd. Traddodiad, parch neu argyhoeddiad, fe all fod yn unrhyw un o'r pethau hynny, fe gawn weld. Diolch am draddodiadau'r Nadolig sy'n gwneud ein dathlu mor arbennig; yn gyngerdd a gwasanaeth, cerdyn ac anrheg. Diolch am y ddealltwriaeth o gariad a'r hyn oll sy'n deillio o gariad. Fel y dywed yr Apostol Paul :-

'Y mae cariad yn hirymarhous; y mae cariad yn gymwynasgar; nid yw cariad yn cenfigennu, nid yw'n ymffrostio, nid yw'n ymchwyddo ... nid yw'n ceisio ei ddibenion ei hun, nid yw'n gwylltio, nid yw'n cadw cyfrif o gam, nid yw'n cael llawenydd mewn anghyfiawnder, ond y mae'n cydlawenhau â'r gwirionedd'.

A diolch am gyfrwng, y Crist ymgnawdoledig, goleuni'r byd a gobaith ein hyfory. A diolch am y rhai hynny sy'n dal i sôn am yr hen, hen hanes.

Nadolig Llawen!
Y Parchg Eifion Roberts, Penrhyn-coch

## COLOFNYDD Y MIS



# Dewi Huw Owen

Yr wyf yn byw, ar hyn o bryd, mewn fflat fechan yng nghesail tŷ mwy mewn tref glan môr yng ngorllewin Cymru. Gwahenir ni, ac ambell dŷ arall, oddi wrth weddill y dref gan fryn, a chan hynny, ni theflir ddim ond y llygedyn lleiaf o oleuni stryd arnom fin nos. Ond rhydd hyn inni olwg brin ar un o ryfeddodau coll ein byd.

Yn fynych, ar noson glir, a minnau wedi gorffen fy ngwaith am y dydd, af allan trwy ddrws ffrynt fy fflat, ac edrychaf yn syn tua'r nen. Yno, yn hytrach na'r awyr pwl melynddu hwnnw sy'n gefnlen fud i fywydau cymaint o drigolion dinasoedd a threfi mawrion y byd, caf weld, yn eglur, gyfoeth o sêr, a nebiwlau, ac asteroidau, a phlanedau. Caf weld yr hen gytserau cyfarwydd, fel yr Aradr, a'r Heliwr, a'r Arth Fawr. Caf weld, â llygad noeth, yn ôl i hynafiaeth y bydysawd, wrth imi rythu ar oleuni sêr sydd bellach yn farw, ac wrth imi weld heuliau eraill sy'n dyfod i fod. Ac yn bennaf oll, caf gyd-rannu â profiad a fu, ers milenia, yn rhan annatod o'r profiad dynol. Y profiad o lygadrythu tua'r nen, ac o weld yno alaeth sydd tu hwnt i'n dirnadaeth, ac o weled ohoni gosmos sy'n ein cymell i aros, ac i holi, o hirbell, am ystod y nos.

Gwelodd ein cyndeidiau dduwiau yn y fflachiadau uwchlaw. Ym mhob patrwm, ym mhob cytser, gwelsont yno batrymluniau ar fuchedd a moes. Yr oedd yno arwyddion, a gwyrthiau, a gwir. Yno rhedodd Mercher ar ei negeseuon dwyfol. Yno ymdeithiodd y Teigr Gwyn â holl rwysg yr Ymerawdwr. Yno fu'r saith Nakshatra ar hugain — pob un yn gartref i saith hen chwedl ar hugain. Yno fu'r gwagle heb gysur yr Aten. Yno fu'r duwch cyn gwawrio'r un dydd. Ac yno, meddai rhai, cododd seren o'r Dwyrain, i arwain tri brenin at frenin y byd.

Gwelsom ninnau hefyd, yn ein hoes ni, rai'n gwau'u hanesion yn yr heuliau fry. Lluniwyd iwtopia amryliw gan Roddenberry. Actiwyd adfyd anghynes gan Rockwell. Gwnaed panto gan Raymond, athrofa gan Kubrik, chwe saga gan Lucas, a llithoedd gan Hawkins, sawl myth gan Delaney ac Arthur C. Clarke, sawl rhith gan Azimov a Phillip K. Dick, a cheid ffrâm ar y cyfan gan Herbert George Wells. Hedfanwyd yr Eagle, yr Aires, y Freedom, a'r Hawk, a sawl cerbyd tebyg, i hela pob planed yng ngwyll ein dychymyg, a holiasom hwynt oll am eu hud.

A beth am y chwedlau na chlywn ni fyth? Beth am bob gair teg a rennir rhwng dau sy'n cydholi'r sêr a'u holl enwau? Beth am bob gair croes a rennir rhwng un sy'n croesholi'i nos a'i gysgodion? A beth am bob gair sy'n ddim ond llyffethair; pob gair sy'n ddistawrwydd, sy'n ennyd ddi-eiriau? Y gair am yr hyn sydd tu hwnt i'n gramadeg? Y gair a leisir yn fud.

Yr wyf yn byw, ar hyn o bryd, mewn fflat fechan yng nghesail tŷ mwy mewn tref glan môr yng ngorllewin Cymru. Yn fynych, ar noson glir, af allan trwy'r drws, ac edrychaf yn syn tua'r nen ...

**Mae Huw (o Bow Street) yn ddarlithydd ac yn fyfyriwr PhD yn Ysgol Ddiwinyddiaeth, Astudiaethau Crefydd, ac Astudiaethau Islamaidd, Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant. "Crefyddau'r Byd yng Nghymru Heddiw" yw testun ei ymchwil doethuriaeth.**

## CYNGOR CYMUNED TREFEURIG

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 19 Hydref, yn Neuadd y Penrhyn am 7.00pm, gyda'r Cadeirydd, Trefor Davies, yn y gadair. Roedd wyth o'r cynghorwyr eraill yn bresennol ynghyd â'r Clerc a'r Cynghorydd Sir, Dai Suter. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Tegwyn Lewis a Melvyn Evans.

Roedd y Cadeirydd a Dafydd Sheppard wedi bod yng Nghyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru ym Mhontrhydfendigaid ar 9 Hydref, a chafwyd adroddiad llawn ganddynt am y gweithgareddau. Roedd Kari Walker wedi bod ym Mhwyllgor Cyswllt Airtricity yn Nhal-y-bont ar 12 Hydref, ac roedd Richard Owen wedi bod mewn cyfarfod yng Ngogerddan ar 18 Hydref lle'r oedd swyddogion o'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith wedi egluro beth oedd y broses gynllunio yn achos datblygiadau mawr megis y fferm wynt arfaethedig yn Nant y Moch.

Roedd Cyngor Ceredigion yn trefnu cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau ar 2 Tachwedd pan fyddai Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor yn cyfarfod cynrychiolwyr o gynghorau cymuned yr ardal. Enwebwyd y Cadeirydd a Kari Walker i gynrychioli Cyngor Trefeurig. Un o'r pynciau i'w godi yn y cyfarfod fyddai y sefyllfa parthed graeanu'r ffyrdd. Adroddodd y Cynghorydd Sir ei fod wedi bod mewn sawl trafodaeth am y mater gyda swyddogion Ceredigion a chyda'r aelod cabinet oedd yn gyfrifol am y mater, sef Ray Quant. Roedd y Cyngor Sir am arbed arian, felly roeddynt yn bwriadu cyfyngu ymhellach ar raeanu'r ffyrdd. O ganlyniad nid oeddynt yn bwriadu graeanu y tu hwnt i'r post ym Mhenrhyn-coch. Roedd y Cynghorydd Suter wedi tynnu sylw'r Cyngor Sir at y ffaith fod garej bysys Evans y tu draw i'r pentref, a bod y bysys hynny yn gwasanaethu ardal eang, gan gynnwys nifer sylweddol o fysys ysgol. Penderfynwyd dal i bwyso ar y Cyngor Sir i ailystyried y penderfyniad, a hefyd i ofyn am ychwaneg o finiau graean yn yr ardal.

Ceisiadau cynllunio: estyniad i 14 Glanceulan wedi'i ganiatáu. Ceisiadau newydd: tri thŷ ar y cae gyferbyn â Festri Horeb. Penderfynwyd holi a yw'r cynllun yn caniatáu mynediad a pharcio ar gyfer defnyddwyr y cae pêl-droed sy'n ffinio â'r safle.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 16 Tachwedd, yn Hen Ysgol Trefeurig am 7.00pm, gyda'r Cadeirydd, Trefor Davies, yn y gadair. Roedd saith o'r cynghorwyr eraill yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Edwina Davies, Tegwyn Lewis a Daniel Jones.

Penderfynwyd diolch i bawb a fu ynghlwm â gwasanaeth Sul y Cofio. Roedd sawl un wedi dweud wrth y Cyngor fod sbwriel a gwastraff yn cael ei ddefnyddio i lenwi mewn safle adeiladu ym Mhenrhyn-coch, a phenderfynwyd cysylltu â Gwasanaethau Amgylcheddol Cyngor Ceredigion am y mater unwaith eto.

Adroddodd Kari Walker a Melvyn Evans am y cyfarfod a fu gydag Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor Sir yn Neuadd Rhydypennau. Prif fyrdwn y cyfarfod oedd fod y cynghorau cymuned yn gyffredinol yn cwyno am ddiffyg cydnabyddiaeth neu ymateb gan y Cyngor Sir i bryderon a godid gan y cynghorau cymuned. Adroddodd Dafydd Sheppard am gyfarfod y bu ynddo yn Aberaeron ar 11 Tachwedd, ymgynghoriad ar y cyd gan yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion.

Adroddodd Melvyn Evans am y trafodaethau a gynhaliwyd rhyngddo ag Adran Briffyrdd Ceredigion am y dŵr sy'n rhedeg yn aml hyd wyneb y ffordd rhwng y garej bysys a Neuadd y Penrhyn, a'r peryglon sy'n codi o hyn ar dywydd rhewllyd. Ni wnaeth y Cyngor Sir unrhyw addewidion i raeanu ond roeddynt am wneud ymdrech i glirio'r ffosydd a gwella'r draeniau, ac, o bosib, gosod biniau graean ychwanegol.

Roedd Kari Walker wedi gwneud cais am absenoldeb estynedig o'r Cyngor am y byddai'n gweithio dramor am o leiaf chwe mis o Ragfyr 2010 ymlaen. Cytunwyd i'r cais gan fod darpariaeth gyfreithiol ar gyfer cais o'r fath.

Cais cynllunio: Gwarcaeau, Salem; codi estyniad — dim gwrthwynebiad. Ceir y cofnodion yn llawn ar wefan www.trefeurig.org .

# YSGOL RHYDYPENNAU

### Noson Agored

Ar yr 8fed o Dachwedd, cynhaliwyd noson agored Tymor Yr Hydref. Cafodd rhieni plant blynyddoedd 1 i 6 gyfle i drafod cynnydd a datblygiad eu plant yn ystod y tymor hwn. Cynhaliwyd noson agored Y Meithrin a'r Derbyn wythnos yn ddiweddarach.

### Plant mewn angen

Roedd hi'n ddiwrnod Plant Mewn Angen ar y 19eg o Dachwedd. Bu'r Cyngor Ysgol yn brysur yn trefnu nifer o weithgareddau difyr er mwyn codi arian i'r elusen. Ar ddiwedd y dydd casglwyd £370. Ardderchog!

### Noson Goffi

Cynhaliwyd Noson Goffi Yr Adran Meithrin a Derbyn ar y 25ain o Dachwedd eleni yn yr estyniad newydd. Rhoddodd y digwyddiad hwn gyfle i blant, rhieni a staff yr ysgol ddod at ei gilydd am sgwrs a phaned. Trefnwyd stondinau, raffl a nifer o wobrau eraill yn ystod y noson; a chodwyd £394.42 yn y broses.

### Panto

Aeth plant blynyddoedd 1 i 6 i Ganolfan y Celfyddydau ar y 25ain o Dachwedd i fwynhau'r panto blynyddol. 'Myrddin' oedd enw'r panto eleni, a chafodd y plant hwyl yn gwylio'r miri ar y llwyfan.

### Ymweliadau

Braint ac anrhydedd oedd croesawu artist lleol i'n plith yn ddiweddar; fe ddaeth Ruth Jên i flwyddyn 5 a 6 er mwyn cyflwyno ac arddangos technegau celfyddyd arbennig i'r plant er mwyn cwblhau agweddau o waith celf y tymor hwn. Cafodd y plant brofiadau amhrisiadwy yn ystod yr ymweliad. Hoffai'r ysgol ddiolch i Ruth Jên am rannu ei harbenigedd â'r plant; a diolch hefyd i Mrs Helen Jones am drefnu'r ymweliad.

### Ffair Lyfrau

Ar y 29ain o Dachwedd, roedd hi'n amser eto i gynnal Ffair Lyfrau yn yr ysgol. Mae'r ffair yn gyfle gwych i'r plant a'r rhieni i ddewis a dethol pob math o lyfrau difyr. Ac er y tywydd gaeafol iawn, prynwyd gwerth £130 o lyfrau yn ystod y ffair.

Nadolig Llawen! i holl ddarllenwyr 'Y Tincer,' oddi wrth blant a staff Ysgol Rhydypennau!!

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk



Eira cynnar eleni!



Codi arian ar gyfer Plant Mewn Angen



Ruth Jên yn ymweld â blwyddyn 5 a 6



Noson Goffi y Meithrin a'r Derbyn


O dan y môr â'i donnau, Mae llawer dinas dlôs, Fu'n gwrando ar y clychau, Yn canu gyda'r nôs...
oriel Tir a Môr gallery
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

GAREJ CWRT
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH TRWSIO . TIWNIO M.O.T. a.y.b
Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
PENRHYN-COCH ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth 820 090

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

CYSYLLTWCH Â NI
ytincer@googlemail.com

# YSGOL PEN-LLWYN

### Plant mewn angen

Daeth plant i'r ysgol yn eu pyjamas a'u tedi. Roeddem i gyd yn teimlo ei bod yn amser gwely drwy'r dydd ond gwnaethpwyd swm teg o arian am eu hymdrechion.

### Tocynnau 'Dewch i Dyfu'

Diolch i rieni a chyfeillion yr ysgol am gyfrannu tocynnau inni fedru ehangu ein cyflenwad o gelfi garddio.

### Pantomeim

Cawson fore hwyliog yn canu gyda Martyn Geraint a'i stori am y lamp hudol. Pantomeim draddodiadol ardderchog.

### Apêl Pabi Coch

Casglodd y plant yn arbennig o dda. Diolch iddynt am eu hymdrech.



Plant mewn angen



Martyn Geraint gyda rhai o'r plant.

C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
• Arolygon Adeiladau
• Cynllunio adeiladau newydd.
• Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
• Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.
Ffon: 01970 820166

# COLOFN MRS JONES

Mae hi yn Nadolig unwaith yn rhagor a'r flwyddyn wedi hedfan heibio heb i mi sylweddoli. Rhyw flwyddyn od ydi hon wedi bod i mi, ar y naill law, yr wyf wedi bod yn brysur a gallaf restru yr hyn a wneuthum ond, ar y llaw arall, y mae i bopeth a wneuthum rhyw afrealaeth fel petawn wedi gwylio rhywun arall yn gwneud y cwbl. Mae'n debyg fod hynny i'w ddisgwyl ond gwn nad oeddwn yn disgwyl casau gweld y Nadolig. Ond, gwae fi, yr wyf vn casau meddwl amdano, ar wahan i'r agwedd grefyddol, wrth gwrs, mae honno yn llonni fy nghalon eleni fel erioed. Ond naw dwbl wfft i'r gweddill...tybed ai dyna paham fod confensiwn mwrnio yn gadael i mi anwybyddu'r ŵyl? Am eleni, wedi'r cyfan, yn ôl yr hyn a ddysgwyd i mi pan yn blentyn, nid oes neb yn disgwyl na cherdyn nag anrheg gennyf am eleni. Er fe fydd yn rhaid gofalu am y plant, wrth reswm, ond peth arall yw hynny.

Nid yw ddim help i mi fod Meirion mor hoff o'r Nadolig er na thybiech chi mo hynny wrth wrando arno weithiau. Er gwaethaf ei gwyno, fe fynnai addurno y tŷ a'r ardd ac fe fyddai yn ymroi i siopa ac yr oedd yn un da am wybod beth i'w brynu i bawb. Ef oedd Nadolig tŷ ni o'r bon i'r brig ac fe fydd yn enbyd hebddo.

Ond adref yr wyf am fod eleni, er hynny. Yr wyf wedi derbyn sawl cynnig i fynd at wahanol aelodau o'r teulu ond eu gwrthod a wneuthum. Un sal ydw i am fynd i weld pobl ac aros efo nhw, mae gennyf ofn mawr bod yn niwsans iddynt, a beth petawn i yn ei chychwyn hi am Southampton, Caerdydd neu Abergele a hithe yn dod yn eira mwy a minnau yn methu dod adref? Y peth arall sydd yn fy ysgogi i aros adref yw'r syniad mai dim ond dros dro y lleddfai unrhyw unigrwydd o'r eiddof oherwydd dod yn ôl i dŷ gwag a wnawn, waeth i mi a Buster a Tiny gael aros adre o'r cychwyn ddim. Ond yn y gwahoddiadau y cefais unrhyw bleser yn ochr seciwlar y Nadolig hyd yn hyn.

Fodd bynnag, mae'r ffaith nad oes raid i mi baratoi ar gyfer yr ŵyl yn golygu nad oeddwn wedi sylweddoli pa mor agos oedd y Nadolig nag y byddai raid i bethau megis erthyglau misol gael eu cyflwyno yn gynt yn y mis. Difeind, hwnna ydi o, er fe honnwn i fy hun mai fy nhraed sydd yn oer yn yr heth! Mae fy meddwl i yn arafu os yw fy nhraed i yn oer, ffaith a wnai i'm teulu gellwair mai yn fy nhraed y cadwn f'ymennydd. Nid gwir y gair, wrth reswm, ond fe rydw i yn ferthyr i oerni, yn brawf sicr o gelwydd y gosodiad fod pobl dew yn gallu cadw eu hunain yn gynnes i gychwyn arni achos rhynnu a rhincian yw fy hanes i bob gaeaf. A dydi Buster ddim help, dyna lle ydw i yn cau drysau full pelt i gadw gwres mewn ystafelloedd a Buster yn fy nilyn yn eu hagor! Fe ystyriais eu cloi ond gwn na weithiai hynny, ychwaith.Wel, fe weithiai mewn un ffordd, ni fedr Buster ddefnyddio goriad ond os ydw i yn cloi drws mewnol, mae o yn ymosod arno a gwthio. Mae'n rhaid i ddrysau mewnol tŷ fod ar agor ym marn Buster. A mae ei hiwmor yn rhatach na phrynu drysau!

A nid yw pethau fawr gwell os af allan. Dydw i dda i ddim byd ar eira a rhew, mae gennyf ofn cerdded ynddo rhag ofn i mi syrthio ac y mae gennyf ofn dreifio ynddo rhag ofn i mi gael damwain. Mae'n hardd edrych ar y wlad yn ei gwyn, ond mae edrych arno trwy ffenestr yn ddigon i mi - a diolch i'r drefn, yn ddigon i'r ci, hefyd, peth i chwarae ynddo yn yr ardd yw eira ond nid peth i gerdded ar bafin ynddo. Hir y pery ei gred yn hyn!

Ond mae'r tywydd drwg wedi dod ar ein gwarthaf yn sydyn, yn gynt yn y flwyddyn nag adeg gaeaf gwael 1947 hyd yn oed. Gobeithio'r nefoedd na phery hwn cyhyd neu fe fydd gan rhywun angen ffortiwn i dalu biliau trydan a halen ar y briw oedd deall fod y cwmnÐau trydan yn codi mwy nag a ddylent am wres a golau. Os gwir y gair, mae hyn yn anfoesoldeb rhonc ac yn rhywbeth y dylai'r llywodraeth ymroi i'w wella - cyn y biliau nesaf, os yn bosibl!

Cyfnod o baratoi enaid ar gyfer geni'r Crist yw'r Adfent. cyfnod inni roi ein tai ysbrydol mewn trefn i groesawu y Gair sydd yn dod i drigo gyda ni a gobeithio ein bod i gyd yn cael cyfle i fyfyrio ar hynny wrth inni ruthro i drefnu ein dathliadau.

Ac er na fyddaf yn anfon cardiau eleni,yr wyf yn dymuno NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA i bawb ohonoch

# TASG Y TINCER



Fuoch chi yn ffair Aberystwyth? Roedd y tywydd yn ddigon da i grwydro o gwmpas a mwynhau'r stondinau a'r reids i gyd, ond bois bach, mi oedd hi'n oer iawn iawn pan fues i yno! Efallai fod rhai ohonoch chi wedi ennill pysgodyn aur, neu dedi bêr mawr. Mae'n siŵr eich bod yn hynod o brysur ar hyn o bryd gan mai un llun o'r cangarŵ yn unig ddaeth y tro hwn. Diolch i ti Elin Pierce Williams, Bryncastell, Bow Street, am dy lun. Hoffais dy gangarŵ coch gyda'r sticeri drosto yn fawr iawn, felly ti sy'n ennill y tro hwn. Dalia ati i liwio!

Wel. ydech chi'n barod am y Nadolig? Mae'n siwr eich bod chi'n paratoi at gyngerdd neu sioe yn yr ysgol ers wythnosau lawer. A oes rhai ohonoch yn cymryd rhan yn nrama'r geni yn eich capel neu eglwys? Un cymeriad sy'n cael ei gysylltu efo'r adeg hon o'r flwyddyn yw Sant Niclas. Ydech chi wedi clywed amdano? Roedd Sant Niclas yn byw yn Lycia, Twrci, flynyddoedd maith yn ôl. Cafodd ei fagu mewn mynachlog, ac roedd yn ddyn caredig iawn, yn crwydro'r strydoedd yn y nos er mwyn rhannu ei arian â'r bobl dlawd. Byddai'n aml yn gwisgo clogyn coch, hir fel nad oedd neb yn ei adnabod, ac mae sôn amdano'n taflu ei arian i lawr ambell simne, lle byddai'n syrthio i mewn i'r sanau a fyddai'n sychu wrth y tân. A dyna gychwyn yr arferiad o adael hosan i dderbyn anrhegion oddi wrth Sion Corn! Yn yr Iseldiroedd ac yn yr Almaen, mae plant o hyd yn gadael eu hesgidiau y tu allan i'w tai ar 6 Rhagfyr, sef y dyddiad y bu Niclas farw, gan obeithio y byddan nhw'n llawn anrhegion erbyn y bore. Sinter Klaas yw enw Sant Niclas yn yr Iseldireg, ac o hwn daw'r enw 'Sion Corn'.

Beth am liwio'r llun o Sion Corn? Dyma ddyn fydd yn brysur iawn cyn bo hir, felly cofiwch fod yn blant da! Anfonwch eich lluniau ata'i erbyn dydd Calan (Ionawr 1af) i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street. Ceredigion, SY24 5DE. Nadolig dedwydd i bob un ohonoch, a ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Oed | Rhif ffôn

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Meddygfa Ystwyth
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

Llety Maes-y-môr
Aberystwyth
o £20 y noson
Ystafell yn unig. Teledu. Te a choffi. Wi Fi am ddim. Parcio. Shed i feics
www.maesymor.co.uk
Ffon: 01970 639 270

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

Gwasanaeth CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

ISSN 0963-925X
9 770963 925009
Rhif 334 | RHAGFYR 2010